# tafod elái

Mawrth 2021

Rhif 355

Pris £1


## Newyddion am Gymru

Mae'r argyfwng presennol wedi dangos y galw am newyddion a gwasg sydd yn ymateb i ddigwyddiadau yng Nghymru. Prin yw'r ddarpariaeth yn Saesneg am newyddion Cymru ac felly mae'n dda gweld bod nifer o wasanaethau newydd yn cychwyn a datblygu ym mis Mawrth.

Ar y 1af Mawrth dechreuodd cwmni Newsquest ddarparu gwefan thenational.wales gyda newyddion a materion cyfoes. Hefyd mae cwmni'r Herald wedi cychwyn gwefan www.herald.wales sy'n cynnwys erthyglau yn Gymraeg. Mae gwefan nation.cymru wedi bod yn darparu newyddion a sylwadau yn Saesneg a Chymraeg ers 2017 ac yn ddiweddar wedi penodi Gareth Ceidiog Hughes yn Olygydd newydd.

Yn y Gymraeg mae dewis o newyddion oddi wrth golwg.360.cymru , bbc.co.uk/cymrufyw , a barn.cymru yn ogystal â dros 50 o bapurau bro lleol ar bro.360.cymru. Hefyd mae gwefan newydd www.ffolio.cymru wedi ei sefydlu i werthu e-lyfrau Cymraeg a Saesneg

Felly bydd digon o ffynnonellau i chi gadw i fyny â'r diweddaraf heb droi i ddarllen newyddion sy'n dod o dros y ffîn!






## Angen Gweithredu i Amddiffyn Rhag Llifogydd

Roedd y rhaglen diweddar *Drych* ar S4C yn dangos effaith dychrynllyd y llifogydd o ganlyniad i stormydd Ciara a Dennis ar gymuned Cwm Rhondda a Chwm Taf. Blwyddyn ar ôl y drychineb prin yw'r atebion i atal digwyddiad tebyg eto ac mae trigolion lleol yn byw mewn ofn parhaus. Does dim digon o arian wedi'i roi i helpu pobol yn dilyn y digwyddiadau hyn ac mae angen dysgu gwersi er mwyn gwarchod ein cymunedau rhag llifogydd yn y dyfodol.

Ar y rhaglen gwelsom a chlywsom brofiadau nifer o bobl leol.



Roedd y dŵr wedi cyrraedd hanner ffordd i fyny'r grisiau yn nhŷ Rebecca Chadwick yn Ynysybwl a chafodd newyddion na fyddai ei hyswiriant yn ei digolledu.

Rhagor ar dudalen 8.



Dywedodd Lowri, merch Justyn Marshman sy'n byw yn Heol Berw, Pontypridd, "Doedd dim pwrpas stopio'r dŵr rhag dod i mewn trwy'r drws ffrynt achos roedd o'n dod mewn trwy'r drws cefn."



Yn y Pentre, Rhondda, cymaint oedd nerth y dŵr roedd yn dod i mewn drwy'r wal dywedodd Jason Crudge.

**Tanysgrifio £10 i Tafod Elái**

**Diolch i bawb sydd wedi tanysgrifio yn barod dros y we neu i'n dosbarthwyr.**

**Ewch i TafodElai.cymru a thalu drwy'r linc gyda cherdyn debyd neu credyd.**

**Gallwch dderbyn Tafod Elái yn ddigidol, neu wedi ei argraffu.**

## Arwyddion Newydd




Diolch i Gyngor Cymuned Pentyrch am roi arwyddion newydd dwy-ieithog ar eu hysbysfyrddau.

## Cynlluniau ar gyfer y Miwni

Mae Ymddiriedolaeth Awen wedi cymryd les 30 mlynedd ar Ganolfan Celfyddydol y Miwni ym Mhontypridd gyda'r bwriad o greu dyfodol llewyrchus i'r adeilad hanesyddol. Bydd gofal allanol yr adeilad yn parhau yn nwylo Cyngor Rhondda Cynon Taf a byddant yn rhoi cymhorthdal o £250,000 i alluogi'r Ymddiriedolaeth i wneud ceisiadau am grantiau i fuddsoddi £4.5m yn y ddarpariaeth. Mae Awen yn gyfrifol am nifer o sefydliadau yn sir Pen-y-bont ar Ogwr gan gynnwys Theatr y Grand Porthcawl, Parc Gwledig Bryngarw, Neuadd y Dref, Maesteg a Llyfrgelloedd y sir.

tafod elái

GOLYGYDD
Penri Williams
029 20890040

CYHOEDDUSRWYDD
Colin Williams
029 20890979

Erthyglau a straeon
ar gyfer rhifyn mis Ebrill
i gyrraedd erbyn
25 Mawrth 2021

**Y Golygydd**
Hendre 4 Pantbach
Pentyrch
CF15 9TG
Ffôn: 029 20890040
**e-bost**
pentyrch@tafelai.com

Tafod Elái ar y wê
**http://www.tafodelai.cymru**

Argraffwyr:
EVANPRINT
www.evanprint.co.uk

CYMRAEG
Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru

Gwasanaeth addurno, peintio a phapuro

**Andrew Reeves**

Gwasanaeth lleol ar gyfer eich cartref neu fusnes

Ffoniwch

Andrew Reeves
01443 407442
neu
07956 024930

I gael pris am unrhyw waith addurno



# Fy atgofion am y cyfnod trosi o'r hen arian i'r degol

**Mae John Cullwick sy'n mynychu dosbarth Cymraeg ar fore Mercher wedi ysgrifennu pwt bach am gyfnod y newid o'r hen arian i'r degol.**

Ar ôl y Brifysgol ym 1969 cefais swydd gyda Tesco fel rheolwr dan hyfforddiant. Gwaith caled ar ôl fy nhair blynedd hamddenol ym Mangor!

Tua Awst 1970 gofynnwyd i mi gan Reolwr Hyfforddiant Tesco beth oedd yr her fwyaf oedd yn wynebu'r archfarchnad yn y dyddiau yna. Wrth gwrs y trosglwyddo o £sd i £p/c a'r pwysau ar y staff o achos hyn. I gychwyn byddai'r ddwy system yn rhedeg ochr wrth ochr. Byddai gennym bishyn chwech, darnau tair ceiniog, dimai, sylltau, coron, hanner coron, papur chweugain a phapur punt yn cyd redeg gyda darnau sgleiniog newydd fel 50c, 20c, 10c, 1c ac ati.

Ces y dasg o hyfforddi fy nghyd-reolwyr er mwyn iddyn nhw allu hyfforddi eu staff eu hunain. Roedd hon yn freuddwyd o job a finnau ond yn 24oed!

Yn dilyn hyn gwariais gyfran sylweddol o'r cyllid a roddwyd i mi ar gynhyrchu llyfryn yn y Gymraeg. Ces y cyfle i fynd ar y BBC a Theledu Harlech i hyrwyddo'r llyfryn a chael treuliau am hynny.

Roedd ychydig o Gymraeg gen i gan fy mod wedi codi dipyn o'r iaith wrth gymdeithasu ym Mangor Uchaf! Rydw i'n cofio mynd adref a defnyddio'r Gymraeg gyda mam a hithau wedi gwirioni. Ond doedd y Gymraeg oedd gen i ddim yn ddigon da i wneud unrhyw fath o lyfryn. Da dweud i mi gael cyfieithiad a phob cymorth gan yr Athro Bedwyr Lewis Jones. Gwnaethpwyd 1,000 o gopïau i'w dosbarthu i holl siopau Tesco yng Nghymru yn ogystal â rhai yn siroedd yr Amwythig, Croesoswallt a Chaer. Cost y llyfryn a oedd yn rhoi cymorth i drin y system newydd o arian oedd 8/- neu 40c. Gwerthodd y cwbl yn gyflym iawn. Anodd gen i gredu bod hynny i gyd wedi digwydd hanner canrif yn ôl.

# Pos @GarethFfowc ar 15 Chwefror

Hanner can mlynedd i heddiw y cyflwynwyd arian degol ym Mhrydain. Dyma gwestiwn mewn arholiad 11+ i fynd i ysgolion gramadeg ym Morgannwg yn 1958:

Rhennir £15 11s. 3d. rhwng chwe dyn ac wyth fenyw. Os caiff pob dyn £1 2s. 7½d., faint a gaiff pob menyw?

Pob lwc!

cronfa glyndŵr
www.cronfaglyndwr.cymru

Mae Cronfa Glyndŵr yr ysgolion Cymraeg wedi lansio apêl ariannol. Gwaith yr ymddiriedolaeth hon, a sefydlwyd yn 1963, yw dosbarthu grantiau i gylchoedd meithrin, ysgolion ac unrhyw fudiadau eraill sy'n hyrwyddo addysg Gymraeg. Yn bennaf, dyfernir grantiau ar gyfer adnoddau, gwaith hyrwyddo a darparu cyfleoedd i gyfoethogi profiad plant a phobl ifainc o'r Gymraeg.

Yn sgil pandemig COVID-19, y mae'r Gronfa wedi cyrraedd croesffordd lle mae cyfanswm y ceisiadau yn fwy na'r incwm y mae'r Gronfa yn ei chodi yn flynyddol. Bu'n flwyddyn anodd iawn i gylchoedd meithrin ac ysgolion ac mae hynny wedi'i adlewyrchu yn y ceisiadau y mae'r Gronfa wedi'u derbyn.

Dywed Cadeirydd y Gronfa, Catrin Stevens, "Yn anffodus mae 2020-21, wedi bod yn flwyddyn heriol i addysg Gymraeg gyda chylchoedd meithrin dan warchae a mudiadau iaith dan straen. Er gwaetha'r anawsterau, maent yn benderfynol o ddal ati. Diffyg adnoddau sy'n eu llesteirio. Ac o'r herwydd, mae wedi bod yn flwyddyn heriol i'r Gronfa hithau, gyda galwadau a gofynion yn llawer mwy niferus ac yn uwch nag yn y gorffennol. Yn wir, mae'n argyfwng, ac nid ydym bellach yn gallu ymateb i bob cais am gymorth er mor deilwng ydyw." Un o'r grwpiau i fanteisio ar un o grantiau'r gronfa yw Cylch Meithrin Pontypŵl, Cylch Meithrin gorau Cymru yn 2021. Medd yr arweinydd, Helen Greenwood "Fe gawson ni grant gan Gronfa Glyndŵr i brynu tocynnau i fynd i weld SIOE RWTSH RATSH RALA RWDINS yn Theatr y Borough yn Y Fenni. Roedd hwn yn gyfle gwych i'r plant a'u rhieni weld sioe fyw yn Gymraeg. Roedd y tocynnau yn eithaf drud a fyddai pawb ddim wedi gallu fforddio dod gyda ni heb y cymorth yma."

Gwneir yr apêl yn enw Llywydd Anrhydeddus y Gronfa, sef Cennard Davies, ac mae'n agored tan 30 Ebrill. Am fanylion pellach, dylid cysylltu â Mrs Catrin Stevens Cadeirydd ar:
Ffôn : 017 92893410 n e u
E: Catrinstevens@outlook.com

Gellir cael mwy o wybodaeth am y Gronfa trwy edrych ar
http://www.cronfaglyndwr.cymru

# Mwrdwr yn yr ardd

**Profiad Eifion Glyn**

Bore ‘ma, fues i’n dyst i fwrdwr.

Wrthi yn bwyta tôst a marmalêd oeddwn i. Ar y radio roedd y gwengar Dylan Ebenezer yn trafod dechrau cyfnod clo y Covid yn yr Eidal flwyddyn union yn ôl efo athrawes o Gymraes oedd yn byw yn Lombardy.

Roedd hi’n fore braf. Ddoe roeddwn i’n meddwl fod y gwanwyn wedi cyrraedd a Joy a finna wedi mentro i’r ardd i dwtio a chwynnu chydig. Ond haul llwynog oedd o.

Heibio i wydr y drws dwbwl, efo’r Garth yn y cefndir, dyma weld pluen wen yn arnofio yn hamddenol ar yr awel gan lanio ar y lawnt. Yn ei dilyn roedd nifer o blu manach. Mewn penbleth dyma godi at y ffenest ac yng nghornel dde’r ardd y gwelis i o. Roedd ganddo lygaid mileinig ac roedd golwg euog arno yn troi ei ben i bob cyfeiriad fel pe bai'n ofni bod rhywun yn ei wylio ac wedi gweld yr anfadwaith. Wedi ei sodro yn erbyn y ddaear roedd ei brae yn dal i wingo yn ofer. Dyma gythru am y sbienddrych.

“Drycha Joy, dwi’n siwr ma' gwalch glas ydi hwnnw wedi dal cloman,” medda fi yn llawn cynnwrf.

“Ych a fi, wi ddim ishe gweld e,” oedd yr ateb.

Roedd y gwalch wrthi'n brysur yn pluo bron y golomon efoi’i big. Anogodd Joy i mi fynd allan i'w ddychryn ac i achub y golomen. Ond roedd hi’n rhy hwyr. Hyd yn oed pe tawn i wedi ei rusio oddi yno roedd y golomen wedi ei chlwyfo yn angheuol. Doeddwn i chwaith ddim am ymyrryd â natur.





Tra’n sôn am 'ymyrryd â natur’ mi wnaeth rhywbeth arall fy nharo y bore yma am y gwalch arall - ‘dyn'. Yn y newyddion ar y radio roedd adroddiadau fod sŵn gwynt a lluniau o’r blaned Mawrth wedi cyrraedd y ddaear ar ôl i gerbyd Perseverance yr Americanwyr lanio’n llwyddiannus ar y blaned. Chydig wythnosau yn ôl darllenais yn y papur Sul am y miloedd o ddarnau o sbwriel sy’n arnofio’n y gofod o ganlyniad i anturiaethau dyn. O gofio argyfwng cynhesu byd eang, y difa difrifol ar rywogaethau, y pandemig, i restru dim ond tri, onid ydi dyn wedi gwneud digon o lanast ar y ddaear cyn mentro rwan i’r gofod a’r bydysawd i greu mwy o ddinistr?



Ond yn ôl at y mwrdwr. Mwya sydyn glaniodd dwy bioden i fusnesa a dwrdio ond roedd un edrychiad o lygaid melyn tanbaid y gwalch yn ddigon iddyn nhw gymryd y goes.

Mae’n siwr i’r ddrama bara chwarter awr da. Erbyn i mi eistedd nôl wrth y bwrdd roedd fy mhaned wedi hen oeri.

“Dwi ddim yn mynd i olchi llestri, dwi ddim isie gweld yr olygfa,” meddai Joy oedd bellach yn brysur fodio drwy’r llyfrau adar sy’n cael eu cadw ar silff yn y gegin.

“Bwncath ydi o?” gofynnodd

“Na mae o lot llai, “ medda finna.

O’r diwedd dyma ddod o hyd i dudalen y gwalch glas yn llyfr adar Iolo. Cadarnhawyd mai iâr gwalch glas oedd y llofrudd.

Wrth dorchi’n llewys ger y sinc o flaen y ffenest doedd yna ddim golwg o’r gwalch. Yr unig beth ar ôl oedd lluwch o blu. Allan a fi felly yn fy slipars a’m ‘dressing gown’ er mwyn tynnu llun gweddillion y gyflafan ar fy ffôn. Bu bron i mi gal hartan. Roedd y mwrdrwr yn llechu efo’i brae dan goeden yn y border. Am eiliad syllodd i fyw fy llygaid cyn rhuthro bagio am y ffens gan lusgo’r golomen i’w ganlyn. Rywsut neu’i gilydd llwyddodd i’w thynnu drwy’r ffens weiran i ochor y clawdd drain yn y cae cyn hedfan i ffwrdd. Pan edrychais awr yn ddiweddarch, roedd y golomen gelain wedi diflannu.

# PENTYRCH

*Gohebydd Lleol:*
*Marian Wynne*

**Genedigaeth**
Mae’r cyfnod o newyddion da yn parhau i deulu’r Pickards. Llongyfarchiadau gwresog i Bethan a Matt ar enedigaeth Emlyn Llewellyn. Mae Shan a Mike ac Anti Sara wrth eu boddau a dymunwn yn dda i’r teulu bach.



# TONTEG

## Colli Keith Davies

Gyda thristwch daeth y newyddion am farwolaeth R. Keith Davies, Tonteg, ddiwedd mis Chwefror ar ôl salwch byr. Yn wreiddiol o Solfach ac Abergwaun, bu’n athro yn Ysgol Bryncelynnog ac roedd yn weithgar iawn yn y gymuned leol. Bu’n Gynghorydd Plaid Cymru ar Gyngor Bwrdeistref Taf Elái ac ar Gyngor Cymuned Llanilltud Faerdref. Roedd yn un o sylfaenwyr Clwb y Bont ac yn aelod brwd o’u tîm criced ac yn dysgu Cymraeg i oedolion yno. Roedd yn brif-leisydd grŵp Y Traddodiad ac unawdydd ar record gyntaf Côr Godre’r Garth. Ar ôl colli ei wraig, Margaret, bu’n ffodus o ofal ei bartner, Sandra, a symudodd i Gaerdydd yn 2008.

Cydymdeimlwn â Sandra a’i blant Elin, Rhys ac Owain, a’i wyrion Harri, Marged, Taliesin a Gwenllian a’u teuluoedd yn eu colled.

# CREIGIAU

Gohebydd Lleol:
Nia Williams
colin.williams@talktalk.net

**Priodas Aur!**
Llongyfarchiadau mawr **Glenys Mair Glyn Powell** a **Griffith Thomas Roberts** - ar ddathlu hanner can mlynedd o briodas ddedwydd ar y 29ain o Ragfyr, 2020! Pwy 'ddyliech chi ydy'r ddau fach yma? Wel, Glenys a Guto i ni heddiw! Priodwyd y ddau ym Mhenuel, Eglwys y Bedyddwyr, Llangefni gan y Parchedigion Herbert Roberts, Henry Roberts a William Jenkins. Canwyd emyn o waith Mam Glenys, Mrs F.A.Powell. Bellach maent wedi ymddeol ac ail-gartrefu yn Creigiau - ond segur nid ydynt! Anfonwn ein cyfarchion - hwyr!



**Crotesi Creigiau a'r Cylch**
Wel, pwy fydde'n meddwl nôl haf diwetha y bydden ni yn dal yn eistedd tu ôl i sgrin zoom! Ond cawsom noson ddiddorol iawn yng nghwmni
Elin Prydderch - Adweithydd gyda busnes Iechyd a Lles ar lein. Bu'n sôn am sut i edrych ar ôl y corff yn enwedig y colyddun er mwyn gwella ein iechyd yn gyffredinol. Mwy o ddŵr, hadau, grawn cyflawn a llysiau amdani te - ond mi wnaeth sôn fod gwin coch a gin yn dderbyniol hefyd gan eu bod yn isel mewn siwgr!
Bingo fydd mis nesa a gobeithio wedi hynny cawn weld ein gilydd yn iawn! Cofiwch fod croeso i aelodau newydd ymuno gyda ni - ewch draw i'n tudalen facebook.




**Cân Nadolig Côr-ona**
Cynhaliwyd cystadleuaeth cyfansoddi carolau Nadolig ar y grwp facebook Côr-ona cyn y Nadolig. Yn ail yn y gystadleuaeth - Carol/Cân Nadoligaidd Fodern oedd Iestyn Gwyn Jones gyda'i gân 'Nadolig i bob un'. Llongyfarchiadau mawr, Iestyn!
Daeth hefyd yn gyntaf yng nghystadelaeth Carol gan gyfansoddwr 16 ac iau. Enw y gân fuddugol yma oedd 'Eira Mán'. Y beirniad yn y gystadeuaeth yma oedd Caryl Parry Jones.
Ewch draw i sianel youtube Iestyn Gwyn Jones i weld y fideos. Mae'n gân arbennig! Da iawn ti!

**TG Lurgan a'r Urdd**
Mewn cyfnod cythryblus, dyma rywbeth i godi calon. Aelodau'r Urdd a
TG Lurgan
gyda'i gilydd yn y fideo cerddoriaeth Cymraeg-Gwyddelig cyntaf erioed.
Enw'r gân oedd 'Golau'n Dallu' ac roedd Iestyn Gwyn Jones yn un o'r prif unawdwyr
Yn ôl Iestyn 'Dyma'r prosiect cyntaf o'i fath - prosiect i greu hwyl a mwynhad mewn cyfnod anodd ymysg pobl ifanc ar draws y gwledydd'.
Gwyliwch y fideo yma: https://youtu.be/nBLeKfpI5zk




**Dydd Calan**
Nos Galan wahanol iawn gafodd pawb eleni. Bu rhaid i Daniel Calan dreulio nos Galan gyda'i deulu yn hytrach na dathlu ei benblwydd yn 20 oed yng Nghlwb Ifor bach!!
Mae e bellach nôl yn yr Ysbyty Orthopedig yn Birmingham lle mae'n treulio cyfnod o 7 wythnos ar brofiad gwaith yn yr adran Ffisiotherapi. Pob dymuniad da i ti, Daniel! A phen-blwydd hapus hwyr.

**'Edn glas ar adain glau'**
**Glas y Dorlan - ymwelydd prin â phwll broga Creigiau y gaeaf hwn!**
Mae gan y deryn bach hardd hwn lu o edmygwyr sy wedi gwirioni ar ddal cip ohono yn plymio i ddŵr oer y pwll, yn pysgota, yn gwibio neu jyst yn syllu arnom ni! Diolch i Lynn Thomas a Gordon Middleton am y ffotograffau gwych fydd o gymorth mawr i ni ei adnabod. Disgrifiodd Ted Breeze Jones y naturiaethwr hynod gynt yr aderyn bach hardd fel a ganlyn: *'Nid oes 'run aderyn arall a chanddo blu mor llachar. Bydd yn clwydo ar bolyn neu ar gangen uwch ben y dŵr ac yn plymio i ddal pysgodyn. Dro arall, fe'i gwelir yn hofran cyn bwrw'i hun i'r dŵr.Ychydig ohonynt fydd yn fyw ar ôl gaeaf garw. Bwyd? Pysgod bychain ac ambell dro, penbyliaid, pryfed a mân greaduriaid eraill. Os gwelwch bysgodyn yn ei big, a phen y pysgodyn tuag allan, gallwch fod yn eitha siwr fod y Glas ar ei ffordd i fwydo'i gywion.'*
A diolch i Hannah Roberts hefyd am ei pharodi

Welsoch chi ein Glas y Dorlan,
Aderyn hoff o'r afon ddofn?
Ewch da chi i'w weld yn handi,
Peidiwch oedi mwy - rhag ofn!


Llun: Lyn Thomas


Llun: Gordon Middleton

Parhad ar dudalen 5 >

# Creigiau (parhad)

**Cofio Marian Jones**

Trist iawn ydoedd deall i ni golli Marian Jones, ar yr 11eg o Ragfyr, 2020. Ledi arbennig iawn fu'n gymdoges hael i ni yma yn y Creigiau am nifer o flynyddoedd cyn ymgartrefu yn nes at ei theulu yn Radur. Fe'i ganed ym Magillt, Sir y Fflint yn ferch i Weinidog Wesle. Roedd yn briod â Dilwyn, wnaeth gymaint o waith arloesol ym myd y cyfryngau. Aeth i'r Coleg ym Mangor a bu'n athrawes ymroddgar mewn nifer o ysgolion yng ngogledd a de Cymru fel ei gilydd. Heol y Celyn a Bryntaf oedd dwy ohonynt. Hyd yn oed wedi ymddeol cofiaf ei sgwrs llawn brwdfrydedd am addysg a'i chariad at addysgu plant bach. Dioddefodd Marian afiechyd creulon sawl blwyddyn yn ôl ond fe'i brwydrodd gyda gwên siriol drwy'r blynyddoedd. Ymfalchiai yn ei theulu, ei phlant Richard, Sali ac Anna a'i hwyrion. Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf iddynt oll ar golli Mam a Nain arbennig iawn. *'Y n hardd a hawddgar, gosgeiddig a grasol, roedd gan Marian gonsarn am bawb ond amdani hi ei hun.'* Rhan o deyrnged hynod berthnasol a theimladwy R. Alun Evans ymddangosodd yn rhifyn mis Ionawr 'Gair Bach Bethlehem.'

**Cydymdeimlo**

Estynnwn ein cydymdeimlad llwyraf i Nia a Dave Thompson a'r plantos, Steffan, Ffion a Siân. Roedd y Parchedig Ieuan Davies yn gyfaill i lawer. Deuai yn ei dro i gynnal gwasanaeth yn y Tabernacl, Efail Isaf. Coffa da amdano. Estynnwn fraich cariad atoch ar golli Tad a Thycu annwyl iawn ddiwedd mis Ionawr.

**Cantorion Creigiau**

Mae Cantorion Creigiau, ein côr cymsg lleol, wedi dathlu eu Hanner Can Mlwyddiant ar 20fed Rhagfyr 2020 - yn anffodus nid yn Neuadd Eglwys Creigiau ar ffurf Cyngerdd Carolau fel y trefnwyd yn wreiddiol, ond (oherwydd cyfyngiadau 'Covid') fel noson bleserus ar 'zoom'. Braf oedd gweld ein gilydd a dathlu'r noson trwy godi llwncdestun a chael Cwis Nadolig ysgafn.

Talodd Mair Roberts ein Cyfarwyddwraig Cerdd deyrnged i'r holl gantorion a gefnogodd y côr dros yr hanner can mlynedd diwethaf ac edrychwn ymlaen i ail-gychwyn rhagymarferion cyn gynted â phosib.

Yn y cyfamser, byddwn yn dal i gwrdd ar 'Zoom' er mwyn cael Nosweithiau Cymdeithasol a chyfarfodydd pwyllgor.

I fod yn gadarnhaol, rydym wedi nodi Neuadd Eglwys Creigiau ar gyfer Nos Sul Rhagfyr $19^{eg}$ eleni, 2021, am 6.30 p.m. pan gynhaliwn ein Cyngerdd Carolau - mae gwahoddiad i bob cyn-gantor i ddod i gyd-ganu gyda ni wrth i ni ddathlu ein 50 mlynedd o fodolaeth. Croeso i bawb i ymuno â ni. Edrychwn ymlaen at eich gweld. Pan fydd y cyfyngiadau yn dod i ben, edrychwn ymlaen at ail-gychwyn ymarfer yng Nghlwb Golff Creigiau nob nos Sul, 7.30 - 9.00 p.m. Mae croeso i gyn-aelodau ac aelodau newydd i ymuno â ni unrhyw amser. Yn y dyfodol, gobeithiwn y byddwn yn cynnwys noson o ddathlu pan fydd Clwb Golff Creigiau yn dathlu'r canmlwyddiant eleni, 2021.

**Cydymdeimlo**

Mor, mor drist yw cofnodi marwolaeth sydyn Brian Elsey, ar ôl colli ei frwydr i'r Covid cythreulig, ar b'nawn Sul y 10fed o Ionawr eleni, ac yntau ond yn ddeugain oed. Roedd Brian yn gymydog i ni yn Llys Gwynno, ond yn llawer pwysicach yn ŵr cariadus i Nadia ac yn Dad gofalus i Joshua, James a Jessica. Roedd yn fab-yng-nghyfraith uchel ei barch i Maggie a Ray. Cynhaliwyd ei angladd b'nawn Mercher y trydydd o Chwefror. Talwyd teyrngedau lu i Brian ar y cyfryngau cymdeithasol ac fe agorwyd tudalen gofundme er mwyn cynorthwyo'r teulu bach.



Nadia a Brian Fettah-Elsey

Fel pe na bai un ergyd drasig yn ddigon o fewn y teulu, bu farw Ray Fettah, tad Nadia, gŵr Maggie a thad-yng-nghyfraith Brian ar yr 28ain o Ionawr yn Ysbyty Llantrisant. Yntau hefyd yn colli ei frwydr i'r Covid a Parkinson's. Bu angladd Ray ar b'nawn Llun yr 8fed o Chwefror. Estynnwn freichiau cariad atynt oll yn eu trallod.



Ray a Maggie Fettah-Elsey

Am dy alar, galaraf, - oherwydd
Dy hiraeth hiraethaf,
Yn fy enaid griddfanaf
Drosot it, a chyd-dristaf
Dic Jones

**Diolch**

Er cof am Brian - fuodd farw ar y 10fed o Ionawr, a Ray - fuodd farw ar yr 28ain o Ionawr eleni. Diolch am bob cefnogaeth a chymorth. Mae pawb wedi bod mor garedig i ni fel teulu. Diolch am yr holl haelioni ddangoswyd tuag at y plant. Byddwn ni byth yn anghofio eich caredigrwydd. Nadia a Mags

**Atgofion a Cerdd Rhys Dafis**

Dwi'n cofio gorfod aros wrth droi i'r stad o gyfeiriad Y Groesfaen oherwydd bod dege os nad cannoedd o lyffantod / frogaod bach yn gadael y llyn a chroesi'r ffordd. Dydw i ddim yn synnu bod yr heliwr hardd wedi cyrraedd acw i loddesta. Mater gwahanol fydd cael lle addas i nythu oherwydd mae' nhw'n meddiannu twll twrch neu lygoden yn y dorlan fel arfer, a doedd dim torlan i'r llyn, fel 'dw i'n cofio. Oes nythfa wedi'i chreu?



Llun: Gordon Middleton

**Glas y Dorlan**

Un nawn o haf wrth Gafn Hyrdd
oedwn yn y gwawl hudwyrdd,
a'r dŵr dan fy mhry di-hid
yn ddiog ddi-addewid.

Drwy'r hen goeden gysgedig
nerf o wynt chwaraeai fig,
a thawel lwyth o ewyn
eildro'n llywio o gylch y llyn.

Ond yna, holltwyd ennyd
ar y banc, gan ddeffro'r byd;.
treiddiodd dart trwy hedd y dŵr;
saethodd, hyrddiodd i'r merddwr
blymiwr â'i blu o emau;
dewin glas ar adain glau,
a'i ehediad mor sydyn
nes i'r lliw enfysu'r llyn;
disgyn ar sydyn grwsâd,
yna'n ôl yr un eiliad,
a'i ysgytwol bysgota'n
rhuthr o liw, yn wyrth o'r lan.

Eiliadau hudol wedyn
a'r dydd mor llonydd â'r llyn,
nid oedd yn y distawddwr
un dim yn cynhyrfu'r dŵr,
dim ond tawel ddychwelyd
rhimyn o ewyn o hyd.

Er mai profiad eiliad oedd,
ni symudais am hydoedd.

# Bethlehem Gwaelod-y-garth

**Trefn yr Oedfaon:** (rhithiol oni noder yn wahanol)
**Mis Mawrth 2021:**
7 Mawrth - Oedfa Gymun dan ofal Delwyn Siôn
14 Mawrth – Oedfa dan ofal y Parchedig Aled Edwards
21 Mawrth – Oedfa dan ofal Arwel Ellis Owen
28 Mawrth – Oedfa y Parchedig Robert Owen Griffiths
**Mis Ebrill 2021:**
4 Ebrill - Oedfa Gymun ar Sul y Pasg dan ofal Delwyn Sion

---oooOOOooo---

Sŵn sydd wedi fy swyno'r mis yma - dewch am dro bach i wybod mwy!

**Rhan un o'r daith:**
'Rwy'n gyfarwydd â chlywed am ysgolion yn dysgu canu a chwarae offerynnau cerdd i'w disgyblion, ond feddyliais i erioed fod 'na ysgolion yn dysgu plant i chwibanu!

(Mae'n siŵr y bydd ambell i ebychiad "tafod-yn-y boch" yn porthi y byddai'n dda pe bai ysgolion yn dysgu unrhyw beth i'w disgyblion ar hyn o bryd, ['sgwarnog arall ydi hwnnw], ond mae'r argoelion (ar yr 21ain o Chwefror fel yr ysgrifennaf) yn galonogol y gwelir y plant i gyd yn eu holau cyn hir.)

Prysuraf i ddweud nad ym Mhrydain y cynhelir y gwersi chwibianu gorfodol yma, ond yn hytrach ar ynys sy'n rhan o glwstwr yr Ynysoedd Dedwydd (Canary Islands), a dysgu "iaith chwibianu" y maent – iaith "Silbo Gomero" ar Ynys La Gomera.

Iaith gynhenid [mae cofnod ohoni yn y 15fed ganrif] bugeiliaid a thrigolion yr ynys i drosglwyddo newyddion ar draws tir caregog, ac a fyddai yn ei thro yn atseinio'n glir ac uchel oddiar y creigiau geirwon sy'n rhan o'r dirwedd.

Yn wir gallai chwiban, yn hytrach na gwaedd, (ac felly neges), deithio dros bellter o ddwy filltir ar adain y gwynt. Mae'r brodorion yn ei hystyried fel "barddoniaeth arbennig a phrydferth yr ynys", ac mae amrywiad yn sain a chywair y chwiban yn trawsffurfio geiriau yn fiwsig.

Mae'r "iaith" bellach (ers 2009) ar restr UNESCO o "Ddiwylliant Treftadaeth Anghyffyrddadwy Dynoliaeth" [os yw hynny'n cyfleu'n gywir "Representative List of the Intangible Cultural Heritage of Humanity"] – gan ei bod yr unig iaith o'i bath yn y byd.

**Ail ran y daith:**
Tybed a ydych chi'n cofio'r cyfnod yna ym mywyd y Tywysog Siarl pan oedd yn honni ei fod yn siarad â'r planhigion a'r coed?

Wfftio at y fath ddwli oeddem bryd hynny mae'n siwr!

Ond, hwyrach y bydd yn rhaid i ni lyncu'n balchder fymryn bach o ddilyn y trywydd nesaf yma.

Ym Mhrifysgol Tel Aviv yng ngwlad Israel, mae astudiaeth ddiweddar wedi darganfod bod planhigion yn gallu clywed.

Ia rydych wedi darllen yn gywir - mewn arbrawf, mae un o deulu'r briallu wedi ymateb i symudiadau adenydd y gwenyn sydd yn hel paill, gan gynyddu, dros dro, felystra'r siwgr sydd yn y neithdar.

Y blodyn yn ymateb, megis clust, i amledd adain y gwenyn, a siâp y blodyn yn gweithredu fel y soser sy'n dal y tonnau sy'n cludo llun a sain i'n setiau teledu yn ein cartrefi.

Planhigyn â'r gallu i ymateb, a hwyrach manteisio ar eraill ym myd natur, i esblygu, er sicrhau parhad yr hil. A'r gwyddonwyr yn dechrau ar gyfnod newydd o drafod yr hyn a elwir ganddynt yn "phytoacoustics".

**Rhan tri:**
Mae ambell air neu ddywediad yn fy nghymell bob hyn a hyn i agor "Ap Beibl" ar fy ffôn lôn a phori yma ac acw ymysg y gwahanol fersiynau o'r Beibl sydd arno - chwarae rhyw fath o gêm gyfrifiadurol â mi fy hun os leciwch chi. A ches i ddim o'm siomi wrth edrych am y gair "chwibanu" ynddo.

Mae'r gair yn ymddangos 13 o weithiau yn fersiwn Beibl.net, a rheini i gyd yn yr Hen Destament – neb yn chwibanu yn y Testament Newydd – pam tybed!

Ond os trowch i Feibl William Morgan, dim ond unwaith y cewch hyd i "chwibanu", a hynny yn Llyfr Eseia, pennod 7, adnod 18:

"*A bydd yn y dydd hwnnw, i'r Arglwydd* ***chwibanu*** *am y gwybedyn sydd yn eithaf afonydd yr Aifft, ac am y* ***wenynen*** *sydd yn nhir Asyria*"

A dyna glymu'n dwt siwrna'r chwibanu a'r gwenyn i gyd yn un – oes 'na rhywbeth newydd dan haul tybed!

**Ôl Nodyn:**
Mud ydi hi ym Methlehem, Gwaelod-y-garth o hyd heb ganu, cyd-ddarllen, na chyd-weddio, ond tybed a oes yna ddyfodol i rannu'r efengyl drwy chwiban - o ben y Garth a'r Wenallt, o Fynydd Caerffili a'r Eglwys Newydd, o drum i draeth y Barri? Beth am roi tro arni?

Er o ddeall, yn ein byd llawn Cofid, mae hyd yn oed y gwersi chwibanu rheini yn ysgolion La Gomera bellach wedi gorfod cael eu teilwrio i wrando ar recordiadau yn unig yn hytrach na'r plant yn creu y sain eu hunain!

---oooOOOooo---

# Cymdeithas Wyddonol Cylch Caerdydd

**Tyfiant Hydrogen yng Nghymru gan Guto Owen**
Nos Lun 15fed o Chwefror 2021 cawsom sgwrs ddiddorol iawn gan Guto Owen am Dyfiant Hydrogen yng Nghymru. Mae Guto yn cynrychioli Cymdeithas Fasnach Hydrogen Cymru sydd yn bwriadu cynyddu'r defnydd o'r nwy Hydrogen i gynhyrchu egni yng Nghymru. Mae Guto yn pwysleisio nad oes galw am ddyfeisio technoleg newydd, dim ond gwneud gwell defnydd o'r hyn sydd ar gael yn barod. Mae'r gell danwydd Hydrogen a ddyfeisiwyd gan y Cymro, William Grove o Abertawe ym 1842 yn rhan allweddol o'r dechnoleg yma.

Soniodd Guto fel roedd llawer o'r isadeiledd angenrheidiol i ddefnyddio Hydrogen fel tanwydd ar gael nawr. Mae'r pibellau newydd plastig sy'n cario nwy naturiol i'n tai hefyd yn addas i gludo Hydrogen, ac mae cwmni Worcester-Bosch yn gwneud gwresogydd dŵr sy'n gweithio ar Hydrogen. Mae car glan sy'n rhedeg ar Hydrogen yn cael ei gynhyrchu gan gwmni Riversimple yn Llandrindod ac mae'r cwmni Hanson UK wedi cydweithio gyda Phrifysgol Abertawe i ddatblygu teclyn o'r enw 'electrolyser' sy'n defnyddio egni o'r Haul a'r gwynt i gynhyrchu Hydrogen fel tanwydd.

Yn ogystal â'r dechnoleg anhygoel yma, mae nifer o gynlluniau i symud diwydiannau traddodiadol oddi wrth eu dibyniaeth ar danwyddau ffosil ar hyd traffordd yr M4 er enghraifft. Yn Aberdaugleddau mae cynllun 'Energy Kingdom' yn bwriadu cynyddu defnydd y porthladd o egni Hydrogen a ffynonellau adnewyddadwy eraill. Lan yn y Gogledd ceir cynllun Ynys Môn Ynys Hydrogen sy'n gynllun peilot i annog defnydd o Hydrogen ar yr ynys.

I gloi, mae Llywodraeth Cymru newydd gyhoeddi Dogfen Ymgynghori ar Hydrogen yng Nghymru (gweler y cyfeiriad gwe isod) a'r dyddiad cau am sylwadau ar y cynllun cynhwysfawr yma yw 9fed o Ebrill - ewch ati i gyfrannu sylwadau nawr!
https://llyw.cymru/sites/default/files/consultations/2021-01/hydrogen-yng-nghymru-dogfen-ymgynghori.pdf.

Rhys Morris
(un o ysgrifenyddion CWCC)

Diolch eto i'r holl gymwynaswyr sydd, yn ystod y mis a aeth heibio, wedi gofalu am ein hoedfaon a'r Ysgol Sul, o Sul i Sul, ym Methlehem, Gwaelod-y-garth.

# Peidiwch a choelio'r ebyst ffug

Un o'r pynciau pwysicaf yr ydym yn rhoi hyfforddiant yw diogelwch ar y We – pwnc sy'n cael ei ystyried yn allweddol wrth helpu pobl i fagu hyder ar y We. Mae'r cyfnod pandemig wedi denu twyllwyr o bob math i gymryd mantais ar bobl hŷn yn arbennig. Ym Mhrydain yn 2019-20, llwyddodd twyllwyr i ddwyn £5.4 miliwn gan bobl ar y We a dyma faes sy'n profi'n ffrwythlon i ddrwgweithredwyr oherwydd ein bod yn gwneud mwy a mwy ar y We erbyn hyn.

Yn union fel dysgu gyrru, mae'n bwysig eich bod yn dilyn arfer da ar y We – mae'r ffaith eich bod yn gallu gyrru car yn agor posibliadau i chi fentro i ble bynnag y mynnoch ond mae'n rhaid dilyn y rheolau a bod yn wyliadwrus rhag y peryglon. Dyna'r union feddylfryd sydd angen wrth fynd ar y We er mwyn bod yn ddiogel. Mae'n agor byd newydd cyffrous i chi ond rhaid bod yn ddiogel oherwydd mae profiadau gwael yn gallu bod yn glec i hyder a'r peth olaf yr ydych chi eisiau ydi hynny.

Beth sy'n gyffredin iawn ydi ebyst ffug neu *phishing* yn Saesneg. Os oes gennych chi gyfrif ebost, mae'n fwy na thebyg eich bod wedi derbyn un o'r rhain yn sicr. Beth ydyn nhw? Ebyst ydynt fel arfer yn ffugio eu bod wedi dod gan eich banc, BT, Amazon, o'r swyddfa dreth, gan y gwasanaeth iechyd, Ebay, paypal ac yn y blaen ac yn y blaen. Y ffordd fwyaf cyfleus ag hawdd i leidr ddwyn eich pres yw i chi wirfoddoli eich pres iddynt neu roi'r 'allwedd' iddynt. Beth maent yn chwilio amdano yn fama yw eich manylion banc neu fanylion personol. Os y cewch chi ebost gan eich banc, sy'n gofyn am ddiweddaru eich manylion personol neu'n gofyn i chi glicio ar y ddolen o fewn yr ebost, peidiwch da chi a gwrando arnynt. Mae'r banciau i gyd yn rhybuddio eu bod byth yn cysylltu gyda chi trwy ebost yn gofyn am fanylion personol. Os ydych wedi derbyn ebost gan 'Amazon' er enghraifft yn dweud fod pecyn ar ei ffordd i rywun arall, y cyngor gorau yma yw i fynd yn uniongyrchol at wefan fel Amazon a logio fewn yn fanno, a wedyn mi fedrwch chi weld os oes yna eitem wedi cael ei brynu gan rywun arall. Dilynwch y cyfarwyddyd hynny ymhob achos, ac os ydio'n Ebay neu fanc yn cysylltu, logiwch fewn trwy'r ffordd arferol, ac nid trwy glicio ar ddolen mewn ebost. Beth sydd wedi dod yn gyffredin yn y flwyddyn ddiwethaf yw ebyst ffug yn honni ei bod yn dod o'r Gwasanaeth Iechyd yn cynnig brechlyn neu gysylltu ynghylch profi canfod ag olrhain. Peidiwch a chymryd sylw ar ddim byd sy'n dod trwy ebost yn unig!

Cyngor arall pwysig yma yw i sicrhau fod ganddoch gyfrineiriau sy'n ddiogel. Yn aml na pheidio, mae gennym lawer o gyfrifon gwahanol efo Tesco, BT, EE, Next ac yn y blaen ac mae'n hawdd anghofio cyfrineiriau gwahanol, a'r demtasiwn yw i gadw'r un cyfrinair at bob un. Ond peidiwch a gwneud hynny oherwydd os ydi haciwr yn cael mynediad i un o'ch cyfrifon, yna, mae'n agor y drws i'r cyfrifon i gyd. Ceisiwch amrywio ar y cyfrinair a chael rhif, llythyren fawr, symbol, dau air cwbl anghysylltiedig, geiriau Cymraeg o fewn y cyfrinair. Ewch i *howsecureismypassword.net* i wirio os ydy eich cyfrinair yn ddigon diogel. Peidiwch a phoeni, mae'r wefan yma yn gwbl ddiogel!

Wrth brynu nwyddau ar y We, mae'n bwysig gwirio os oes gan y wefan honno dystysgrif ***https://*** neu os yw'r symbol clo yn bresennol, mae hwn fel arfer wedi ei leoli o flaen cyfeiriad y wefan fel arfer ar dop y ffenest y porwr. Mae'r rhain yn angenrheidiol i nodi fod y safle yn ddiogel i drosglwyddo arian arni.

Cofiwch hefyd sicrhau fod yna feddalwedd gwrth-feirws ar eich cyfrifiadur – mae'r rhain i'w cael am ddim, felly peidiwch a chymryd yr abwyd a thalu am un, na thalu am fersiwn arall mwy 'cynhwysfawr'.

Felly, ydi, mae yna beryglon yn bodoli, fel ymhob dim ac mae'n bwysig nodi fod y rhan fwyaf o dwyll yn parhau i ddigwydd dros y ffôn. Ond yr hyn sy'n bwysig yw os ydych ymwybodol o'r peryglon ar y We, mae'r syniad o fynd ar y we yn llawer llai pryderus. Am ragor o wybodaeth ewch chi https://wales.getsafeonline.org/ Byddwch yn ddiogel ar y We, byddwch yn ofalus ac fe fydd y profiad wedyn yn gwbl bleserus. Yn y bôn, cofiwch fod yn wyliadwrus ar y We – a pheidio gwneud penderfyniadau byrbwyll.

*Os ydych chi'n rhan o fudiad neu mewn oed neu'n gweithio gyda phobl mewn oed ac angen cymorth digidol, mae croeso i chi ebostio am gymorth, hyfforddiant a chyngor* Cymunedau.Digidol@wales.coop


## PLEIDLEISIWCH DRWY'R POST ELENI

Os ydych chi braidd yn bryderus am fwrw'ch pleidlais yn ddiogel eleni, cofiwch fod modd i chi gofrestru am bleidlais bost ar gyfer etholiadau'r Senedd.

Bydd rhaid i chi gysylltu â:
Gwasanaethau Etholiadol Cyngor Rhondda Cynon Taf i wneud cais, naill ai trwy eu gwefan, neu dros y ffôn: 01443 490100

NEU

Gwasanaethau Etholiadol Cyngor Caerdydd i wneud cais, naill ai trwy eu gwefan, neu dros y ffôn: 029 2087 2087

O BLAID CYMRU

Plaid Cymru Party of Wales

Hyrwyddwyd gan Plaid Cymru, Ty Gwynfor, CF10 4AL ar ran yr ymgeiswyr

# PONTYPRIDD

Gohebydd Lleol:
Jayne Rees

**Newyddion Pontypridd**
Ymddiheuriadau am ddiffyg newyddion Pontypridd mis diwetha.'Hitch' technegol wrth ddanfon o Graigwen i Bentyrch. Gwell lwc tro yma! Fe fydd ambell eitem yn hen hanes erbyn hyn ond am eu cynnwys beth bynnag!

**Clwb y Bont**
Roedd hi'n werth gwylio rhaglen Prosiect Pum Mil cyn Nadolig i weld trawsnewidiad arbennig Clwb y Bont gan wirfoddolwyr a thîm y rhaglen. Mae aelodau a chefnogwyr y Clwb yn edrych ymlaen yn fawr at fynychu'r lle ond yn anffodus o dan yr amgylchiadau presennol fe fydd yn rhaid aros rhai misoedd. Mae'r Pwyllgor yn diolch o galon i bawb am wneud y rhaglen yn gymaint o lwyddiant.

Llongyfarchiadau i Jane Aaron, Aberystwyth am ennill gwobr Clwb 200 yn ddiweddar. Diolch o galon iddi am roi yr arian yn ôl i goffrau'r Clwb. Diolch hefyd i Colin Gregory am barhau i weithredu'r gronfa hon.

**Cymraes fach newydd**
Pob dymuniad da i Jarrad Sainsbury a'i wraig Charlie ar enedigaeth eu plentyn cyntaf, Delilah Annabelle. Mae Jarrad yn gyn ddisgybl Evan James a Rhydfelen.

**Llongyfarchiadau**
Cyn Nadolig fe glywodd Huw Blainey, Ffynnon Taf (mab Delyth a Gareth, Graigwen) am ei lwyddiant yng nghystadleuaeth cyfansoddi Cor-ona ar wefan gymdeithasol Facebook. Fe ddaeth yn gyntaf am gyfansoddi darn offerynnol Nadoligaidd ac yn drydydd am gyfansoddi can fodern Nadoligaidd. Gwych Huw.

**Penblwydd hapus**
Mae dathlu penblwyddi ychydig yn wahanol yn ystod y cyfnod anodd yma ond pob dymuniad da i dri o drigolion Graigwen. Llongyfarchiadau i Derick Ebbsworth yn 80 oed. Mae Siân Crowley ac Alun Thomas hefyd wedi dathlu penblwyddi nodedig.

**Cyfnod newydd**
Mae Gareth Blainey, Graigwen wedi ymddeol fel aelod o Staff Adran Chwaraeon BBC Radio Cymru ar ôl ymuno a'r Adran ym mis Medi 1987.Dros gyfnod o 33 o flynyddoedd yn ogystal â darlledu bwletinau chwaraeon yn rheolaidd ar Radio Cymru buodd Gareth yn sylwebu ar gemau pêl-droed ledled Prydain ac Ewrop, yn gohebu ar Bencampwriaeth Tenis Wimbledon ac yn ystod y blynyddoedd diwetha buodd yn gohebu ar snwcer hefyd.

Dyma ran o gerdd ysgrifennodd Y Prifardd Cyril Jones iddo.

'Tri degawd a thair blynedd a daniaist ar y donfedd

Gan ddod a chae a chwrt yn fyw i'n clyw a dy huodledd.'

Y gobaith yw y clywn lais Gareth ar Radio Cymru eto yn dilyn hynt a helynt chwaraewyr snwcer Cymru yn y dyfodol.

Pob dymuniad da

(Mae'n siŵr eich bod wedi darllen dipyn o hanes Gareth yn Tafod Elái mis diwethaf a'i weld ar Pnawn Da yn trafod tri pheth arbennig yn ei fywyd.)

**Merched y Wawr**
Fe ddaeth aelodau'r gangen ynghyd ar Zoom ym mis Ionawr. Cafwyd noson ddifyr wrth i bawb ddangos ambell drysor oedd yn bwysig iddyn nhw.

Cafwyd noson hynod o ddiddorol nos Iau ,Chwefror 11eg ar Zoom ( Wrth gwrs!) pan ddaeth Hazel Thomas, Swyddog Datblygu Ceredigion a Phenfro, i siarad am deithio 'O Drefach i'r Dorchester'.

Bydd y cyfarfod nesa nos Iau, Mawrth 11eg ar Zoom yng nghwmni Wil Morus Jones. Ei bwnc fydd 'Tri lle sydd wedi dylanwadu arnaf'.

Nos Iau, Ebrill 8fed am 7.00 ar zoom ein gwestai fydd Rhuanedd Richards, Golygydd Radio Cymru.

**Y Sgrin Fach**
Diddorol oedd gweld cyfweliad Martyn Geraint, Ynysybwl yn dwyn atgofion am recordio'r fersiwn gwreiddiol o'r gan elusen 'Dwylo dros y môr' 35 mlynedd yn ôl. Sgwn i os yw fersiwn newydd 2020 yn well gan ddarllenwyr Tafod Elái na'r gwreiddiol?

**Clwb Llyfrau**
Mae aelodau'r clwb yn dal i gwrdd yn fisol ar 'Zoom' ac yn trafod amrywiaeth o gyfrolau Cymraeg a Saesneg. Mae croeso i unrhyw un i ymuno â ni. Byddwn yn cwrdd nesa bnawn Llun, Mawrth 15fed am 3.15 p.m. Cysylltwch â Jayne am y cysylltiad Zoom yn agosach at y dyddiad. ( 07968438314)

**Croeso**
Pob dymuniad da wrth ymgartrefu ym Mhontypridd i deulu Tudor Asveld. Mae Dafydd a Carlijn a'r plant Harri, Martha ac Oscar wedi symud o Efail Isaf i Gelliwastad Grove, Graigwen yn ddiweddar.

**Ymgyrch Gwrth Hiliaeth**
Pob lwc i Rhodri Francis, Aberystwyth (gynt o Graigwen). Mae Rhodri, sy'n gefnogwr brwd o dîm pêl-droed Abertawe ers yn fachgen bach, yn gweithio gyda'r ymgyrch gwrth hiliaeth yn y byd pêl-droed. Mis Mawrth fe fydd gêm rhwng Caerdydd ag Abertawe ac mae anogaeth i gefnogwyr y ddau dîm i ddod at ei gilydd o dan faner ' Rivals on the Pitch, United against Racism'. Mae cais i gefnogwyr ddanfon llun neu fidio ohonynt yn mynegi eu cefnogaeth i wrth hiliaeth neu yn penlinio. Meddai Rhodri 'Fel Jack mae'r ymateb o gefnogwyr Caerdydd wedi bod yn anghredadwy.'

**Newyddion Trist**
Yn ddisymwth ym mis Tachwedd bu farw Matthew James yn 32 oed. Yn wreiddiol o'r Graig roedd Matthew yn gyn ddisgybl Evan James a Rhydfelen. Cydymdeimlwn â'i deulu ar y Graig a Graigwen.

Cyn Nadolig bu farw mam Helen Morgan, Graigwen (ysgrifenyddes Clwb y Bont). Estynnwn ein cydymdeimlad â Helen , Dani a'r plant.

Dechre Chwefror bu farw Clive Henley, Maesycoed yn 84 mlwydd oed. Bu'n weithgar tra'n rhiant ym Mhont Siôn Norton ac wedyn yn llywodraethwr yn Ysgol Rhydfelen. Roedd yn gefnogwr brwd o Blaid Cymru ac yn weithiwr dyfal dros y blaid yn yr ardal. Roedd yn gyfarwydd iawn i fynychwyr Clwb y Bont. Mae ein cydymdeimlad yn fawr â'i wraig Pat a'r merched Siân a Sharon.

Yn frawychus o sydyn bu farw Kevin Miles, Graigwen. Gŵr busnes adnabyddus yn yr ardal. Mae ei wraig Karen yn gweithio yn Ysgol Evan James lle'r aeth eu pedwar plentyn. Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf at Karen a'r teulu yn eu colled.

**Storm Dennis**
Anodd credu bod blwyddyn wedi mynd heibio ers y difrod trychinebus ddaeth yn sgil y storm. Croniclwyd teimladau'r nifer o drigolion ar raglen S4C 'Drych' mis diwethaf wrth iddynt ymdopi â rhoi trefn ar eu cartrefi. Bu Rebecca Chadwick a'i mab Sam, sy'n byw yn Ynysybwl, yn sôn am saith troedfedd o ddŵr yn llifo i'w cartref. Mae Rebecca yn gyn ddisgybl Ysgol Pont Siôn Norton a Rhydfelen a Sam yn gyn ddisgybl Garth Olwg.

Fe glywsom ni Justin Marshman, sy'n byw tafliad carreg o'r afon Taf yn sôn am ei brofiadau e yn ystod y llifogydd. Aeth Justin i Ysgol Heol y Celyn a Rhydfelen. Buodd Jason Crudge, cyn ddisgybl arall Rhydfelen yn cyfrannu at y rhaglen.

Cyn ddisgybl arall Pont Sion Norton a Rhydfelen oedd yn lleisio'r rhaglen sef Geraint Todd.

**Mwy o Siopau'n Gadael**
Cyhoeddwyd yn ystod yr wythnosau diwethaf y bydd cangen o fanc HSBC yn symud o ganol y dre. Yn ogystal fe fydd siop Halfords yn cau ym Mhontypridd. Mae'r adeilad lle'r oedd Argos bellach yn wag wrth i'r cwmni symud i ran o Sainsbury's. Mae datblygiadau gyda chwmni Dorothy Perkins yn golygu na fyddan nhw'n bodoli fel siopau ar y stryd fawr felly siop wag arall ar Stryd Taf. Beth ddaw yn eu lle nhw?

# EFAIL ISAF

Gohebydd Lleol:
Loreen Williams

**Brysiwch Wella**
Dymunwn wellhad buan i Gwilym Treharne sydd wedi treulio cyfnod byr yn yr ysbyty. Braf deall ei fod lawer yn well erbyn hyn.

**Dyweddïo**
Newyddion da iawn sydd gan y ddau frawd, Mathew a Daniel, meibion Ioan a Liz Rees, ac wyrion Eirian ac Ann Rees, Penywaun.

Llongyfarchiadau i Mathew ar ei ddyweddïad i Lowri Evans, Cilycwm, Sir Gaerfyrddin. Athrawes yn Ysgol Ifor Bach, Caerffili yw Lowri a Mathew yn Rheolwr Cyllid yn Ysgol Sant Baruc, Y Barri.

Yr un yw ein dymuniadau i Daniel ar ei ddyweddïad yntau â Kate Walters o Bontypridd. Mae Daniel yn beiriannydd trydanol a Kate hithau'n gyfrifydd ym Mhontypridd.

Dymunwn yn dda i'r ddau gwpwl.

**Llongyfarchiadau**
Estynnwn ein llongyfarchiadau gwresog i Brengain Rhys Penywaun a Steffan West, Parc Nant Celyn, y ddau wedi dathlue eu pen-blwydd yn ddeunaw oed yn ystod y mis.

**Ymateb i gân Mei Mac**
Wrth wrando ar y prifardd Meirion Macintyre Huws ryw noson ar y rhaglen "Heno" yn sôn am y gân newydd a sgrifennodd yn ddiweddar mi ddaeth syniad i'm pen. Wrth ddod ar draws hen luniau wrth glirio, fe anogodd Mei Mac ei ffrindiau i chwilio am hen brintiau ac i rannu eu hatgofion am y lluniau. Aeth ati i ysgrifennu geiriau i gân "Tyrdafo", ac mi ofynnod i Gethin Thomas gyfansoddi cân ac i Neil Maffia ei pherfformio. Na, dw ddim am gyfansoddi cân, ond dyma fi'n dechrau tyrchu am luniau ac yn dod o hyd i rai o gyfarfodydd cyntaf Cymdeithas Gymraeg Pontypridd yn 1959. Sgwn i faint o'r bobl yma fydd darllenwyr Tafod Elái yn eu cofio?

**Siop y Pentre**
Rwy'n siŵr fod darllenwyr Tafod Elái wedi laru arna i'n sôn am Siop y Pentre, ond mi gafodd ein siop ni ragor o gyhoeddusrwydd ar y radio yn ystod y mis. Cafodd Eifiona Hewitt gyfle i ganu clodydd y siop ar Raglen Geraint Lloyd ar Nos Fawrth yr ail o Chwefror. Gyda chymaint o siopau yn cau yn y cyfnod cythryblus yma roedd Geraint wedi ei synnu'n fawr fod yna siop yn ail-agor. Menter ryfeddol o ddewr yn ei farn ef. Bu Eifiona'n canmol y perchnogion newydd am fod mor gymwynasgar ac yn gymaint o gaffaeliaid i'r pentref. Mi apeliodd yn daer ar i'r pentrefwyr i gefnogi'r fenter. Cafodd Eifiona gyfle hefyd i sôn am weithgareddau eraill y pentref. Soniodd am gymdeithas glos y Tabernacl; am frwdfrydedd y Corau, am Neuadd y Pentref ac am gymwynasgarwch perchnogion Tafarn y Carpenters a fu'n arallgyfeirio, gan ddarparu amrywiaeth o fwydydd i'r pentrefwyr yn ystod y cyfnod clo.

**Y TABERNACL**
**Cydymdeimlo**
Estynnwn ein cydymdeimlad llwyraf i Nia Thompson, a'r teulu yn Y Creigiau, ar farwolaeth ei thad, Y Parchedig Ieuan Davies. Bu'r Parchedig Ieuan Davies yn pregethu yma yn y Tabernacl ar adegau a bu'n Weinidog yng Nghapel Minny STreet am gyfnod o ryw ddeng mlynedd tua diwedd y ganrif ddiwethaf.

**Pen-blwydd arbennig**
Pob dymuniad da i un o'n haelodau o Donteg a ddathlodd ben-blwydd arbennig iawn ar Ionawr 20fed. Llongyfarchiadau mawr i Elaine James.

**Diolch**
Er nad ydym fel aelodau wedi cyfarfod yn adeilad Y Tabernacl ers ymron i flwyddyn erbyn hyn mae ein dyled yn fawr i amryw o bobl am gadw fflam yr eglwys i ddisgleirio. Rhaid diolch i'r rhai sy'n paratoi gwasanaethau pwrpasol bob Sul, i'r trysorydd diwyd, i aelodau'r Gweithgor Cymdeithasol, bwrdd y Cyfarwyddwyr a'r criw gweithgar sydd yn edrych ar ôl yr adeiladau a'r fynwent.

Cor Meibion Taf

## Côr Meibion Taf

*Heno pan fo'r byd yn fflam*

A hithau'n 80 mlynedd union ers i Abertawe ddioddef ymgyrch fomio'r Almaenwyr (19 – 21 Chwefror 1941), aeth CÔR MEIBION TAF ati i goffâu'r gyflafan drwy recordio fideo *Y Tangnefeddwyr* . Mae'r darn yn cofnodi erchylltra'r digwyddiad hwnnw, geiriau ysbrydoledig Waldo wedi'u priodi â cherddoriaeth anthemig Eric Jones.

Mae'r aelodau'n hen gyfarwydd â rhith recordio erbyn hyn yn dilyn prosiectau llwyddiannus tebyg wrth greu fideos *Deus Salutis, Seren Nadolig, O Tannenbau* a *Daw Haul ar Fryn.* Bu'r ymateb ar y cyfryngau cymdeithasol yn ffafriol dros ben ac yn hwb mawr i'r côr mewn dyddiau blin. Felly, trowch chithau at ein gwefan cormeibiontaf.cymru wrth ddwyn i gof ddigwyddiadau pedwar ugain mlynedd yn ôl.

Os yw'r arlwy'n apelio at y dynion yn eich plith, mae'n adeg hynod amserol i ystyried ymuno â Chôr Meibion Taf yn eu rhith ymarferion ar nos Sul – beth am droi i mewn i wrando y tro cyntaf? Nos Sul 14 Mawrth, bydd yr arweinydd, Steffan Jones a'r cyfeilydd Lowri Guy yn dechrau dysgu darn newydd i'r aelodau sef *Corws yr Helwyr* gan Weber. Beth sy'n braf gyda'r rhith ymarferion hyn yw nad oes neb arall yn eich clywed! Felly beth amdani?

Rhodri Jones 07770559961 Cadeirydd
Colin Williams 07768900738 Ysgrifennydd
cormeibiontaf.cymru

A beth am Gwilym ac Eleri Huws sydd bob wythnos yn hysbysu'r aelodau am weithgareddau'r Tabernacl gyda'r cylchlythyr difyr, llawn gwybodaeth. "Dolen y Tab" a hefyd am gynhyrchu'r cylchgrawn "Tafod y Tab".

Diolch o galon i chi gyd.

Cymdeithas Gymraeg Pontypridd 1959





# Tyfu Lan yn yr Efail Isaf (1945 -1953)

## D. Gareth Edwards

***Chafodd Dr D Gareth Edwards, yr addysgwr a fagwyd ger yr Efail Isaf, ddim cyfle, oherwydd y pandemig, i draddodi ei anerchiad am ei fagwraeth yn yr ardal hon yn ystod dathliadau 150 mlwyddiant capel y Tabernacl y llynedd. Ond dyma gyfle i ddarllenwyr Tafod Elái ddarllen rhan gyntaf yr atgofion hynny.***

Bu fy nhaith i gyrraedd bro brydferth yr Efail Isaf a Llanilltud Faerdre yn eitha troellog ac amrywiol. Dechrau'r daith oedd tŷ prifathro Ysgol Gynradd Edmwnd Prys Gellilydan, rhwng Trawsfynydd a Maentwrog, lle'm ganed yn 1936. Yna ymlaen ymhen rhyw ddwy flynedd i Landderfel i fyw ym Maes y Rhuddallt ar lannau afon Ddyfrdwy. Ac o fewn golwg i ysgol Llandderfel roedd plasty mawreddog y Palé, sy'n westy moethus heddiw, lle bu mam yn ystod y rhyfel yn dysgu merched teuluoedd cefnog - ffoaduriaid (*evacuees*) o ddinasoedd Lloegr. Yr atgof cliriaf sydd gen i o'r cyfnod yw cerdded o'r ysgol ar bnawn rhynllyd o Ionawr i fynwent eglwys y plwy i weld beddrod agored hen foneddiges y Palé (Lady Robertson) oedd i'w chladdu drannoeth. A gallaf weld yn awr gadwyni hir o eirlysiau wedi eu plethu gan forynion y plas yn orchudd gwyn dros waliau pridd y bedd. Golygfa amlwg o gofiadwy i blentyn tua chwech oed.

**Symud i'r De**

Yna symud ymlaen, eto yng nghanol y rhyfel, i'r de, i ardal Abertawe, a mynd i Ysgol Gynradd Cwm-rhyd-y-ceirw ger Ysbyty Treforus. A chofio gweld, wrth sefyll ar y 'Cross' yn Nhreforus gyda fy mam-gu ar ôl Ysgol Sul un tro, resi hir o *jeeps* yn cludo milwyr yr Amerig (yr Yanks) i drin eu clwyfau yn Ysbyty Treforus ar ôl hwylio o Normandi i



Gareth Edwards a Geraint Stanley yn arddangos eu harfwisg colegol - Sgarff melyn a gwyrdd Coleg y Brifysgol Bangor a gown myfyriwr israddedig

Bu Dr D. Gareth Edwards ar staff Adran Addysg Prifysgol Aberystwyth, yn warden Neuadd Pantycelyn, ac yn Brif Weithredwr y Pwyllgor Datblygu Addysg Gymraeg.

borthladd Abertawe. Ac roedd gan fyddin America wersyll enfawr ar ben ucha'r parc yn Nhreforus lle mae swyddfa trethu ceir (DVLA) heddiw. '*Any gum chum?*' oedd cyfarchiad gobeithiol y bechgyn wrth ddod ar eu traws ar strydoedd y dre.

Heb yn wybod i mi, roedd iechyd fy nhad wedi dechrau dirywio yn Llandderfel a bu raid iddo dreulio sawl gwyliau haf yn ysbyty Wrecsam. Tra roedd ef dan driniaeth, treuliwn wyliau cyson yn nhŷ fy nain a nhaid (neu mam-gu a grampa) yn Nhreforus, tref enedigol fy mam. Felly symud o Landderfel oedd yr unig ddewis. Ar ôl gwella, gwnaeth nhad gais i ddysgu yn Abertawe. Ond doedd fawr o drefn ar gyflwr yr ysgolion ar ôl y bomio erchyll. A doedd y rhyfel yn Ewrop heb orffen o bell ffordd. Yn y man cafodd swydd yn sir enfawr yr hen Forgannwg yn dysgu Mathemateg yn ysgol uwchradd fodern y Beddau. Ac, yn ffodus iddo, ei brifathro yn y Beddau oedd Mr David Dawkins a oedd yn flaenor yn Eglwys y Tabernacl, Efail Isaf. A Mr Dawkins a'i cynghorodd i gael llety dros dro ym Mhentre'r Eglwys hyd nes y câi dŷ cyfleus i fagu teulu.

Roedd dalgylch ysgol y Beddau yn eang gyda glofa'r Cwm a'r ffwrneisi golosg yn cyflogi cannoedd o lowyr. Yn lle gwasanaeth milwrol câi bechgyn yr ardaloedd glo (y 'Bevin Boys' fel y'u gelwid) ddewis i weithio yn y pyllau lleol neu ymuno â'r lluoedd arfog. Bellach mae'r gwaith glo wedi hen ddiflannu. Ac enw cyfoes yr ysgol, wrth gwrs, yw Ysgol Gyfun Bryncelynnog.

Yn y man prynwyd tŷ yn 34 Heol yr Orsaf, tua hanner ffordd rhwng Pentre'r Eglwys a'r Efail Isaf - rhwng y ddwy orsaf reilffordd sydd bellach wedi diflannu. Ac felly symudodd y teulu o Dreforus ddiwydiannol a phrysur i'r ardal wledig dawel hon yn 1945 a minnau bron yn naw oed. Erbyn heddiw, mae stadau enfawr o dai yn amgylchynu Heol yr Orsaf.

**Pentre'r Eglwys**

Roedd fy nghartre newydd yn hynod gyfleus. Roedd criw mawr o fechgyn ym Mhentre'r Eglwys, ond dim ond dau yn byw yn Efail Isaf, sef Gwyn Thomas a Geraint Stanley Jones (unig fab Y Parchedig D. Stanley Jones, Gweinidog y Tabernacl) gan mai hen deuluoedd sefydlog oedd mwyafrif y trigolion a'u plant wedi gadael y nyth. Roedd ambell un yn y brifysgol, fel Gareth Rowlands yn cwblhau ei ddoethuriaeth yn y Fridfa Blanhigion yn Aberystwyth. Tad Gareth, David Rowlands, a ysgrifennodd lyfryn adeg dathlu canmlwyddiant y Tabernacl yn 1941, ychydig cyn i mi symud yma. Myfyriwr arall oedd Miles Richards, mab prifathro Ysgol Gynradd Pentre'r Eglwys, a raddiodd yn y Gyfraith yn Aber ac a fu'n gyfreithiwr prysur a phoblogaidd am flynyddoedd yn y fro hon.

Mae'n debyg mai enw a Gymreigiwyd yn eitha diweddar yw Pentre'r Eglwys, gan mai Church Village oedd yn arferol. Y cwmni rheilffordd roddodd yr enw mwy cyfoes i'r pentre, a chadw Llanilltud Faerdref yn enw'r plwyf. I Eglwys hynafol Sant Illtud yr âi llawer o'm ffrindiau, efallai am fod y ciwrad ifanc poblogaidd wedi sefydlu cwmni o Sgowtiaid oedd yn mynd bob haf i wersylla. Ac roeddwn bron marw eisiau bod yn sgowt a gwisgo'r het gron pigfain, a sgarff am fy ngwddf, a chael mam i wnïo lot o fathodynnau i arddangos fy sgiliau a champau ar fy nghrys. Ond doedd hynny ddim i fod. Yn ôl mam roedd y Sgowts yn rhy eglwysig ac yn sicr yn rhy Seisnigaidd.

Pentre digon cryno a chartrefol oedd Pentre'r Eglwys ac roedd gen i griw mawr o gyfoedion i chwarae pêl-droed ar barc Ton-teg neu griced ar y maes criced




Pentre'r Eglwys

Parhad ar dudalen 11 >

y tu cefn i gapel Salem, neu fynd i'r Llyfrgell Carnegie ardderchog lle'r oedd ein hathro ysgol Sul, yr annwyl Tom Powell, yn bennaeth. Roedd y cyfan yn hwylus a diogel a rhieni'r plant yn nabod ei gilydd yn dda.

Mewn pentre gweddol fach, er y rhyfel, roedd bywyd cymdeithasol bywiog. Roedd cwmni opera ysgafn ac roedd y perfformiadau yn Neuadd yr Eglwys yn hwyl i bawb, yn arbennig y plant a oedd yn nabod llawer o'r cantorion, eu tad neu fam wedi gwisgo lan - a sioeau lliwgar fel *Country Girl* a *Quaker Girl* - gydag ambell Eisteddfodwr cenedlaethol yn serennu, fel y baswr dwfn Dewi Chubb a'r soprano urddasol, Gwen Morgan o'r Efail Isaf.



A sôn am liw, dwi'n cofio Carnifal ar y cae ar draws y ffordd i fynwent y Tabernacl. Ac yn arbennig fel glaslanc bywiog, cystadleuaeth y Jazz Band i gatrawdau o ferched ifanc del - sawl band o'r Rhondda - yn eu gwisgoedd a helmedau militaraidd tal. Byddai ambell fand yn disgyn o'u bws gan orymdeithio y tu ôl i'w harweinydd yn filwrol drefnus o orsaf Efail Isaf i faes y sioe. Hi, y dlysa a'r dala fel arfer, oedd yn cadw'r tempo ac yn cyfarwyddo troi i'r dde neu'r chwith, gan daflu ei ffon i'r awyr a'i dal, a'r milwyr-gennod yn hymian darn poblogaidd fel 'O When the Saints come marching in' ar eu *bazookas*. Lot fawr o hwyl a sbri annisgwyl, mewn ardal mor heddychlon. A'r llanciau wrth eu bodd, wrth gwrs.

Roedd gan ysgol gynradd Pentre'r Eglwys ffreutur newydd sbon a'r plant hynaf yn gweini'r bwyd yn eu ffedogau a



Rhai o lanciau'r ardal:
Geraint Stanley, Arwel Edwards, Rosslyn Biddle, D. Gareth Edwards, Gwyn Thomas

phenwisg gwyn o'u gwaith llaw eu hunain. Roedd cinio'r ysgol yn wirioneddol faethlon o gofio bod pob cig, menyn a chaws yn cael eu dogni. Roedd y llyfryn bach dogni (*Ration Book*) yn anhepghor gan fod pob tocyn yn werth owns neu hanner pwys o fenyn, siwgwr neu facwn. Hefyd roedd dosbarthiadau nos yn y ffreutur i'r mamau lleol ddysgu gwneud yn fawr o'r ychydig fwyd oedd ar gael. Mae 'Jonesy' y cigydd yn *Dad's Army* yn agos iawn ati pan mae'n bygwth peidio gwerthu sosejys neu *chops* os na chaiff ei ffordd. Roedd siswrn y groser i dorri tocyn o'r llyfryn mor bwysig â'r peiriant pwyso ar y cownter.

O ystyried amgylchiadau economaidd truenus y cyfnod yn dilyn y Rhyfel Mawr, rhaid canmol Sir Forgannwg am drefnu pob math o weithgareddau min nos. I ieuenctid heb bwysau arholiadau ysgol uwchradd roedd clybiau min nos yn yr ysgolion lleol gyda gwaith coed, gwneud dillad, chwaraeon, canu ac yna dawns i ddiweddu pob noson. Gyda'i brofiad o sefydlu Aelwyd yr Urdd yn Llandderfel penodwyd fy nhad yn bennaeth Clwb Ieuenctid y Beddau a Mam yn arwain y corau. Hefyd ar lefel fwy uchelgeisiol, dyma gyfnod sefydlu cerddorfa i ddisgyblion ym mhob sir a Cherddorfa Genedlaethol Ieuenctid dan nawdd Cyd-bwyllgor Addysg Cymru. Roedd y bywiogrwydd a'r holl egni creadigol a chorfforol yma yn ganolog i bolisi'r llywodraeth i adfer balchder a hyder y wlad ar ôl blynyddoedd o boen a dioddefaint.

**Y Tabernacl**


I'r cyfeiriad arall o Heol yr Orsaf roedd yn hynod gyfleus i gerdded i'r Tabernacl yn yr Efail Isaf ar y Sul fel y gwnâi bron pawb oedd yn byw ym Mhentre'r Eglwys. Ambell dro gwelem y blaenor hynaf, David Rees, Crwner Sir Forgannwg, yn ein pasio yn ei gar Ford mawr rhodresgar, ond welais i erioed mohono yn cynnig lifft i neb!

Roedd fy nhad yn gapelwr mawr wedi ei fagu yn y Capel Mawr, Rhosllannerchrugog ac fel John Hughes ei gyfaill pennaf, yr emynydd a brawd Arwel Hughes, wedi gweithio yng nglofa'r Hafod ger Rhos ar ôl gadael yr ysgol. Ar ôl cael cymwysterau addysg drwy gyfrwng dosbarthiadau nos yn y capel yn Rhos graddiodd Yncl John mewn cerddoriaeth yn Aber ac aeth fy nhad i gymhwyso fel athro yn y Coleg Normal ym Mangor.

**Teithio**

Er mai prin iawn oedd ceir preifat oherwydd dogni petrol, roedd gwasanaeth bysus rheolaidd rhwng y Beddau ac Efail Isaf i Bontypridd - teuluoedd lleol oedd y cwmnïau hyn gyda garej Maiseys ar waelod ein heol ni, ac yna yn Llanilltud Faerdre garejys Bebbs a hefyd Edwards sydd bellach yn gwmni enfawr ar ôl llyncu'r cwmnïau llai. Roedd gwasanaeth bysus Western Welsh cyson rhwng Pentre'r Eglwys a thrwy Efail Isaf, Creigiau, Pentyrch a lawr rhiw serth Gwaelod-y-Garth i'r Amgueddfa yng Nghaerdydd. Ac, wrth gwrs roedd y trên o'r Efail Isaf yn dal i fynd, drwy'r Creigiau a Sain Ffagan i Gaerdydd - taith hynod o hardd: mae olion y trac a phontydd hwnt ac yma i'w gweld o hyd. Byddai llawer o ferched y cymoedd yn disgyn o'r trên yn y Creigiau i hel briallu a chlychau'r gog mewn basgedi gan fod y llethrau gerllaw yn garped trwchus o flodau'r gwanwyn. Mae'n bosib mai eu gwerthu fesul tusw oedd y bwriad o gofio tlodi'r cyfnod.

Tra'n sôn am y trên, yn ôl Geraint Stanley a'i dad, treuliwyd noson gan y Frenhines Elisabeth yng ngorsaf Efail Isaf yn y 'sidings' ym mhen draw eu gardd yn Emlyn Villa. Gallaf gredu hynny oherwydd, ar ei thaith yn y trên brenhinol o amgylch Prydain ar ôl ei choroni ynghynt yn 1953, drannoeth ar ôl treulio noson am y clawdd â theulu'r Gweinidog, fe ddaeth y Frenhines i Barc Ynysangharad, Pontypridd, i'w chroesawu gan y pwysigion lleol a ninnau brif swyddogion yr ysgol yn osgordd hardd!



Gorsaf Efail Isaf

Parhad ar dudalen 12 >

## TYFU LAN YN YR EFAIL ISAF (1945 -1953) D. GARETH EDWARDS

Mae'n anodd peidio sôn am addysg a'r Gymraeg gan iddynt chwarae rhan mor allweddol tra'r oeddwn yn byw yn yr ardal hon ac yn wir am weddill fy mywyd. Y diwrnod cyntaf yn Ysgol Ramadeg y Bechgyn, Pontypridd, roedd rhaid i ddosbarth y 30 uchaf a basiodd arholiad y '*Scholarship'* ddewis rhwng Lladin a Chymraeg. Roedd Ffrangeg yn orfodol i bawb. Lladin oedd dewis bron pob un o'r 30. Os gofynnid pam, 'Am fod yn Feddyg, neu Gyfreithiwr, neu Wyddonydd' oedd yr ateb. Ac o gofio eu gyrfaoedd yn y diwedd, dyna a gyflawnid ganddynt ar ôl i'r mwyafrif raddio mewn prifysgolion yn Lloegr. Gwaetha'r modd, dim ond Geraint a fi ddewisodd y Gymraeg. Cymraeg ail-iaith oedd ffawd y ddau ddosbarth arall a phrin oedd y llwyddiant. Yn y man, penodwyd nifer o athrawon Cymraeg ardderchog i greu adran hynod o fywiog yn yr ysgol, gan gyhoeddi cyfres *Siarad Cymraeg* a thrawsnewid y dulliau dysgu yn llwyr. Ymhen amser aeth llawer o blant y disgyblion hyn i Ysgol Rhydfelen a fu'n sail i Ysgol Gartholwg.

**Y Parchedig D. Stanley Jones**



Canolbwynt yr un mor bwysig â'r ysgol i mi oedd fy eglwys yma yn y Tabernacl. O ran gwasanaethau ffurfiol gallwn ddeall a gwerthfawrogi oedfaon y Parchedig D. Stanley Jones yn fawr, a'r cymundeb yn arbennig ar ôl cael fy nerbyn yn gyflawn aelod, gan y byddai'n creu awyrgylch o wir ddefosiwn. Roedd ganddo lais clir a chynnes a chyflwynai ei neges yn wirioneddol ystyrlon. Roedd yna ddiffuantrwydd ym mhob peth a ddywedai ac a wnâi. A mawr iawn yw fy nyled iddo. Yn wreiddiol o'r Ffynnongroyw yn Sir y Fflint, bu ei gartref ef a'i wraig Olwen o Abertridwr yn ail gartref i mi ar ôl colli nhad a datblygu cyfeillgarwch â Geraint Stanley. Cyfeillgarwch gafodd ei feithrin drwy rannu cwmni ein gilydd bob dydd drwy'r ysgol, rhannu llety yng ngholeg Bangor ac yna bod yn was priodas iddo yn Yr Hen Gapel, Llanuwchllyn.

Merch Eglwys Soar y Bedyddwyr Cymraeg yn Nhreforus oedd fy mam a fagwyd i ddeall a mwynhau oedfaon y capel yng nghwmni ei mam, sef mam-gu. Byddai mam-gu yn ei dysgu i gystadlu ar ganu ac adrodd mewn eisteddfodau yng Nghwm Tawe a'r ardal a oedd yn fwrlwm o ddiwylliant Cymraeg. Gan mai morwr o swydd Efrog oedd fy nhaid, Saesneg oedd iaith yr aelwyd. Ond roedd ymlyniad fy mam at gapel Cymraeg a'i chariad at yr iaith yn amlwg yn ei chefnogaeth ymarferol. Pan glywodd bod nifer o'm ffrindiau oedd yn Sgowtiaid yn mynd i wersylla, anfonodd am ffurflenni cais i mi fynd i Wersyll yr Urdd yn Llangrannog, a hynny ar fy mhen fy hun. Cês fwynhad anhygoel yn gwersylla, neidio yn y tonnau, chwaraeon ar y maes, dysgu caneuon hwyliog fel 'Awn am dro i frest pen coed' a rhyfelgan brodorion duon De Affrica 'Uzi Sikele, Affrica'. A chael fy nghyffwrdd yn arbennig gan yr Epilog bob hwyrnos, gydag Alwyn Samuel a'i wraig neu Tomi Scourfield yn ein harwain. Er mwyn gloywi fy Nghymraeg llafar anfonodd mam fi i Langrannog am dair blynedd. Ac yna wrth imi fynd yn hŷn, i Wersyll Glan-llyn. Am y tro cyntaf ers 'madael â Llandderfel yn 7 oed gallwn chwarae a chael hwyl yn y Gymraeg. Ac o edrych nôl roedd hyn yn allweddol. Bu'r chwistrelliad blynyddol yma yn rhan amlwg o gryfhau fy awydd i lynu wrth yr iaith.

**Margaret Rosser**



Unwaith pob mis cynhelid Gwasanaeth y Plant yn y Tabernacl a chan fod Geraint, Arwel fy mrawd a minnau'n weddol rugl, byddem yn adrodd o'r Beibl, a darllen gweddi ac emyn yn bur gyson. Roedd hyn yn ymarfer ardderchog ar gyfer ein gyrfaoedd ar y cyfryngau a byd addysg yn ddiweddarach.

Uchafbwynt y flwyddyn i'r Ysgol Sul oedd yr *Anniversary*, sef gŵyl o ddathlu



D. Gareth Edwards

blynyddol gan y plant. Y gyson frwdfrydig Miss Margaret Rosser oedd yr ysbrydolwraig - cyn-athrawes oedd yn byrlymu syniadau ac egni creadigol na welais ei thebyg yn unman. Fe enillodd sawl gwaith yn y Genedlaethol am ddramâu i blant a'i henw yn yr Orsedd oedd Megan Illtud. Ran amlaf fe fyddem yn llwyfannu ambell ddrama fuddugol neu addasiad yn y festri neu'r pulpud a'r sêt fawr. Ond dwi'n cofio'n arbennig ei chynhyrchiad o Seremoni Cadeirio'r Bardd yn y festri. Geraint oedd yr Archdderwydd, fi draddododd y feirniadaeth ac ni chofiaf pwy oedd y bardd buddugol ond roedd rhannau i bron pawb. Ac roedd rhaid gwisgo i fyny'n briodol. Llenni gwyn, gwyrdd neu las, sef lliwiau'r orsedd - nid deunydd amryliw'r Nadolig. Holl bwrpas creu'r pasiant hwn oedd dathlu Eisteddfod Genedlaethol Caerffili (1950) ar ôl ymweld â'r ŵyl mewn bws a chrwydro'r maes ac eistedd yn y babell fawr wen. Ac yno yr enillwyd y Gadair gan Gwilym Tilsley (Aberdâr) am ei awdl hynod boblogaidd i'r Glöwr.

Caner a rhodder iddo - glod dibrin
Y Werin a'i caro;
Nydder y mawl a haeddo
I arwr glew erwau'r glo.

Fel awdl eithriadol Geraint Bowen, 'Yr Amaethwr' (Aberpennar - 1946) a rhai cofiadwy Dic Jones, mae'n ddarluniadol, hawdd ei deall a hynod ganadwy ar gerdd dant.

**Anti Vi**

Wrth sôn am ganu, bob nos Sul o fis Tachwedd ymlaen ar ôl yr oedfa cynhelid Ysgol Gân gyda Miss Rosser yn arwain ac Anti Vi (Mrs Elvira Davies) ar yr organ bedal hen ffasiwn. Y nod oedd dysgu'r emynau newydd ac ambell anthem ar gyfer Cymanfa'r Pasg yn Eglwys Sardis, Pontypridd. Llais tenor swynol dros ben oedd gan Geraint, a minnau'n rhyw fath o fâs. Wrth edrych nôl, roedd yr holl ymarfer yma yn wirioneddol werthfawr gan y bu dysgu bâs yn sylfaen i mi fwynhau canu corawl o bob math ers hynny.

Parhad ar dudalen 13 >

Felly mae'n briodol cofio un o gampweithiau mwyaf creadigol ein cenedl a gyfansoddwyd yn y fro hon, sef 'Cwm Rhondda' gan John Hughes oedd yn ddiacon yn Salem, ger Ton-teg. Ac mae'r dôn hon i emyn mawreddog Ann Griffiths yn briodas eneiniedig:

Wele'n sefyll rhwng y myrtwydd
Wrthrych teilwng o'm holl fryd

Er mwyn amrywio a chyfoethogi'r sain gerddorol yn y capel ffurfiodd Miss Rosser grŵp bach ar y feiolinau i gyfeilio i'r emynau mewn ambell oedfa min nos. Dyna sut y cychwynnais i a chael gwersi bob pythefnos yng Nghaerdydd a dod i berthyn i gerddorfa'r ysgol - ond nid yn ddigon da i fynd ymhellach. Dwi i'n credu mai rhyw fis ar y blaen i ni o ran meistroli'r ffidil oedd Miss Rosser. Roedd ei brwdfrydedd yn ddiddiwedd ac yn batrwm i gyw-athro fel fi.



Anti Vi

Er bod galw ar Anti Vi i gyfeilio emynau bob bore a nos Sul, Ar nos Sadwrn fe fyddai'n jazzio'i phiano mewn dawns yn Neuadd Ton-teg. Roedd hi'n eithriadol o amryddawn a pharod ei chymwynas i bawb. Ei gwên a'i charedigrwydd parod a gofiaf. Ac wrth ei phenelin hi y dechreuodd Geraint Stanley chwarae *swing* a *jazz*, a phan aeth i'r fyddin cafodd gyfle i lunio'i grŵp *jazz* ei hun ac i gyfeilio emynau i'w gydfilwyr ar y Sul. Anti Vi oedd y patrwm *cross-over* iddo.

**Dewis y Gymraeg**

Gan mai Saesneg oedd cyfrwng ein haddysg uwchradd ac iaith sgwrsio gyda ffrindiau bob dydd, mae'n rhyfedd meddwl hynny heddiw, ond Saesneg oedd iaith y cyfathrebu rhwng Geraint a minnau ar hyd ein cyfnod yn byw yn yr ardal hon. Er hynny, dwi'n cofio'n glir yr achlysur y trodd y sgwrsio rhyngom i'r Gymraeg. Roeddem ar y trên o'r Efail Isaf ar ein taith gyntaf i Goleg Bangor ac yn dechrau trafod ein cyrsiau gyda dwy ferch o Bontypŵl oedd yn astudio Ffrangeg. Ninnau'n dweud mai Cymraeg oedd ein prif bwnc. '*You'll have enough Welsh in Bangor. It's around you everywhere',* medden nhw. A chan edrych ar ein gilydd dyma Geraint a fi'n troi'n naturiol i'r Gymraeg a dyna'r cyfrwng fu rhyngom ar hyd ein hoes oddi ar hynny. Ac roedd treulio ein blwyddyn gyntaf yn lletya yng Ngholeg Diwinyddol Bala-Bangor yr Annibynwyr yn cadarnhau hynny.



Ysbyty Dwyrain Morgannwg

Yr adeilad mwyaf urddasol ym Mhentre'r Eglwys oedd Ysbyty Dwyrain Morgannwg *(Yr East Glam)*. Adeilad hardd a adeiladwyd yn y tridegau, ychydig cyn dechrau'r rhyfel, ac a enillodd wobr am ei bensaernïaeth *art-deco* nodedig. Bu'n ysbyty i'r Llu Awyr drwy'r rhyfel a chafodd ei agor i'r cyhoedd yn 1948 ar ôl sefydlu Gwasanaeth Iechyd Aneurin Bevan. Buom fel plant y Tabernacl yno sawl tro yn canu Carolau Nadolig i'r cleifion a Miss Rosser yn arwain a bu'r Parchedig Stanley Jones yn gaplan yno tan ei ymadawiad.

Yn ogystal â'r emyn-dôn Cwm Rhondda, cyfansoddwyd campwaith creadigol arall yn y fro hon. Tra'n gorwedd ar ei wely cystudd yn ysbyty Pentre'r Eglwys adroddodd Kitchener Davies ei bryddest radio enwog 'Sŵn y Gwynt sy'n Chwythu' fesul llinell wrth ei wraig Mair. Fe'i darlledwyd ym mis Ionawr 1952 ychydig cyn ei farw. Gymaint oedd effaith y gerdd ar y gwrandawyr fel y cafodd ei chyhoeddi'n fuan wedyn gyda chyflwyniad manwl gan ei gyfaill Gwenallt gyda'r diweddglo trawiadol 'un o gerddi mwyaf barddoniaeth Gymraeg yr ugeinfed ganrif'.



Tabernacl Efail Isaf a'r Fynwent

**Y fynwent**

A throi'n ôl at y Tabernacl, rwy'n hen gyfarwydd â'r fynwent y tu hwnt i'r muriau hefyd. Bob mis Mehefin, fin nos ar ôl yr ysgol, byddai bechgyn heini'r capel yn ennill rhyw bunt am dorri'r gwair rhwng y beddau ac ar hyd y llwybrau, gyda sisyrnau neu gryman. A byddai'r tâl yn arian poced i'w wario ar drip yr Ysgol Sul mewn bws i Ynys y Barri. A dyma uchafbwynt y flwyddyn i ni lanciau ifanc. Hoffwn ddiolch o waelod calon a llongyfarch pawb am eu llafur diflino i dacluso a chreu mangre hyfryd yn y fynwent. Mae ei lleoliaid yn drawiadol ac yn llygad yr haul pan fo'n gwenu. Mae'n rhoi llawer o gysur i ni sydd ag anwyliaid yn gorffwys yno o wybod am y gofal a rowch i'r hafan dawel a hyfryd hon:

Rhyw ddedwydd, lonydd le,
Llonydd le ar dyle neu dwyn.

**Cân y Gymraeg**

Wrth gynaeafu atgofion 70 a mwy o flynyddoedd yn ôl hoffwn ddefnyddio delwedd a ddefnyddiwyd gan un o aelodau'r Tabernacl yn y gerdd 'Cenaist Gân' yn y casgliad a enillodd Coron yr Eisteddfod Genedlaethol i Glenys Roberts. Trosiad yw'r gair 'Cân' am yr iaith Gymraeg, wrth iddi ddathlu'r ffaith i'w thad feistroli'r iaith. Mewn cyd-destun llawer ehangach mae 'Cenaist Gân' yn adlewyrchu cyffro adfywiad gobeithiol y Gymraeg yn y fro gyfoethog hon. Drigain mlynedd a mwy yn ôl, ym mhedwar a phumdegau'r ganrif ddiwethaf, roedd tri llanc eitha cyffredin ond eto braidd yn anghyffredin, os nad od i lawer - Geraint Stanley, Arwel a minnau - yn deall Cymraeg ac yn canu ei chân yn swil a digon dihyder yn y Tabernacl at lethrau Mynydd y Garth. Ond heddiw mae'r darlun yn ddramatig o wahanol. Ar draws y dyffryn ar gampws eang canolfan addysg Gartholwg, fe drodd y gân dawel a swil yn anthem fywiog a swnllyd o orfoledd ymysg y cannoedd sy'n llenwi ei hystafelloedd dosbarth, ei choridorau a'i neuaddau.

Dr D. Gareth Edwards

# Dai Edwards (1928 - 2020)

Digwydd edrych ar golofnau '*obituaries*' y Guardian oeddwn i, fel sy'n gyffredin i bobl o oedran arbennig, pan welais i'r enw 'Dai Edwards'. Yn ôl y llith roedd yn un o arloeswyr datblygiad cyfrifiaduron, ond 'Dai' oedd yr hyn daniodd fy chwilfrydedd. Oedd e'n Gymro? Wel oedd, ond mwy o syndod oedd darllen ei fod wedi ei eni a'i fagu yn Nhonteg! Rhaid oedd dilyn y trywydd.


Pwy oedd Dai Edwards a beth oedd ei gyfraniad? David Beverley George Edwards oedd ei enw llawn. Fe'i ganwyd ym 1928, yn unig fab i Cecilia a William Edwards. Athro crefftwaith yn ysgol Beddau oedd y tad, a'r fam yn athrawes yn ysgol gynradd Pentre'r Eglwys lle bu Dai ei hun yn ddisgybl. Roedd y ddau yn gapelwyr selog gyda'r Wesleaid ac yn siarad Cymraeg er na throsglwyddwyd yr iaith i Dai. Mae'n amlwg bod doniau ymarferol ei dad ganddo oherwydd mwynheai ymdrin â'i set Meccano ac adeiladu modelau. Yn ogystal ymddiddorai mewn radio gan fynd ati i adeiladu ei set ei hun a dysgu ychydig electroneg, ernes o'i yrfa yn y dyfodol.

Gan basio arholiad y 11 *plus* aeth i Ysgol Ramadeg y Bechgyn, Pontypridd gan deithio i'r ysgol ar y trên. Yn hapus yno cafodd flas arbennig ar fathemateg, ffiseg a chemeg, yr olaf yn cael blaenoriaeth oherwydd y gwaith ymarferol yn y labordy. Roedd lle i gampau hefyd gyda Dai yn chwarae pêl-droed yn Nhonteg a rygbi yn yr ysgol. Wrth gwrs dyma gyfnod yr ail ryfel byd a'i gyfyngiadau a chofia weld y tanau yng Nghaerdydd yn sgil y bomio.

Ym 1945 enillodd ysgoloriaeth wladol i astudio Ffiseg ym Mhrifysgol Manceinion. Profiad newydd oedd bywyd cymdeithasol bywiog ac amrywiol myfyriwr - mae'n debyg taw dyma pryd y tywyllodd ddrws tafarn gyntaf! Nid na chafodd flas ar y gwaith academaidd, yn arbennig electroneg. Dewisodd y pwnc fel opsiwn yn ei drydedd flwyddyn a llwyddo gyda chlod uchel. Graddiodd ym 1948, ac yn unol â'i ddileit, ymunodd â grŵp yn adran peirianneg drydanol y brifysgol oedd â'r dasg o adeiladu cyfrifiadur digidol.

Cymro arall a oedd yn gyd-fyfyriwr ac a ymunodd â'r grŵp oedd Gordon Eric "Tommy" Thomas. Yn wreiddiol o Gwmamman Sir Gaerfyrddin symudodd y teulu i Borth Talbot lle treuliodd ei ddyddiau ysgol. Daeth y ddau yn ffrindiau, yn chware rygbi gyda'i gilydd a rhannu eu dileit mewn motobeics.

Fel mewn sawl maes arall, yr ail ryfel byd sbardunodd ddatblygiad cyfrifiaduron digidol, yn benodol y gwaith o ddatrys negeseuon cudd lluoedd arfog yr Almaen yng nghanolfan Bletchley Park, swydd Buckingham. Fodd bynnag cafodd y gylched



Dai Edwards yn gweithio ar gyfrifiadur cynnar iawn. (Llun: Llyfrgell Brydeinig)

electronig a ddaeth yn sail i ddull cyfrif deuol cyfrifiadur digidol ei chreu ar droad y 30au gan Gymro o Abertawe o'r enw Eryl Wyn Williams pan oedd yn fyfyriwr ymchwil yn adran ffiseg prifysgol Caergrawnt. Yn ystod y rhyfel symudodd Williams i Bletchley Park, gan ddod yn rhan o'r tîm fu'n datblygu peirannau ar gyfer datrys codau'r Almaenwyr, peiriannau a arweiniodd gwyddonwyr y ganolfan i adeiladu'r Colossus. Hwn oedd y cyfrifiadur electronig digidol cyntaf yr oedd modd ei raglenni.

Yn sgil yr awydd i elwa ar yr hyn a ddatblygwyd yn Bletchley Park sefydlwyd grŵp i adeiladu peiriant cyfrifiadurol yn adran peirianneg drydanol Manceinon. Dyma'r grŵp y daeth Dai Edwards yn aelod ohono ym Medi 1948. Cwta dri mis cyn ymuno roedd peiriant prototeip wedi ei adeiladu, ac fe'i bedyddiwyd yn 'Manchester Baby'. Un o briodweddau arbennig y 'Babi' oedd ei fod yn cynnwys y cyfarwyddiadau oedd eu hangen ar gyfer ei raglenni - '*stored-program computer'* i roi'r enw Saesneg - y cyfrifiadur cyntaf o'r fath. Mewn gwirionedd yr oedd yn cynnwys yr holl elfennau a ystyrir heddiw yn nodweddiadol o gyfrifiadur.

Mae'n ddifyr nodi mor fawr oedd y Babi. 17 (lled) X 7½ (uchder) troedfedd oedd ei faint ac roedd yn pwyso ymron i dunnell. Eto rhyw kilobit oedd maint y cof. Cymharer hyn â maint a chof gliniadur modern!

Tasg Dai Edwards ac aelodau eraill o'r grŵp oedd creu cyfrifiadur ymarferol a llwyddwyd i wneud hynny ym mis Ebrill 1949. Hwn oedd y 'Manchester Mark 1'. Ar sail yr orchest hon sefydlodd y llywodraeth gytundeb â chwmni Ferranti i greu cyfrifiadur masnachol aml-bwrpas. Hwn, eto, oedd y cyntaf o'i fath a chafodd ei lansio ym 1951. O gofio rôl ganolog Dai nid syndod i'r cwmni ei wahodd i weithredu fel ymgynghorydd, cyfrifoldeb a ysgwyddodd tros gyfnod o ugain mlynedd.

Parhaodd Dai i adeiladu prototeipiau ar gyfer cyfrifiaduron perfformiad uchel a bu'n flaenllaw yn y dasg o drosglwyddo'r dechnoleg berthnasol o'r byd academaidd i ddiwydiant. Patentwyd nifer o'i ddyfeisiadau gan gynnwys un ar gyfer cyfrifiadur Atlas cwmni Ferranti, un o'r uwchgyfrifiaduron (*supercomputer*) cyntaf yn y byd.

Ym 1965 penderfynodd prifysgol Manceinion sefydlu cwrs cyfrifiadureg a Dai gafodd y dasg o drefnu labordai ar gyfer y myfyrwyr. Yn y flwyddyn ganlynol cafodd ei benodi'n athro peirianneg cyfrifiadureg a pharhaodd yn y swydd honno tan ei ymddeoliad ym 1988.

Roedd cefnogaeth ddamcaniaethol aelodau o adran mathemateg y brifysgol yn allweddol i ffyniant y grŵp yr oedd Dai yn aelod ohono; yn benodol unigolion oedd wedi bod yn gweithio yn Bletchley Park yn ystod y rhyfel. Un ohonynt oedd y Cymro David Rees o'r Fenni a ddaeth wedyn yn athro mathemateg ym mhrifysgol Caerwysg. Aelod arall oedd Alan Turing, gŵr sy'n fyd enwog am arwain y gwaith o ddatrys Enigma sef peiriant codau cudd yr Almaen. Yn ogystal â hynny ef osododd seiliau cysyniadol y cyfrifiadur modern. Nid syndod felly iddo wneud cryn ddefnydd o'r Babi er mwyn astudio posibiliadau'r peiriant. Efallai y bydd o ddiddordeb i ddarllenwyr mathemategol y Tafod wybod taw'r sialens gyntaf roddwyd i'r peiriant oedd darganfod ffactor priodol uchaf (*highest proper factor*) y rhif $2^{18}$ - 1 sef 262,144. Llwyddodd i gael yr ateb cywir mewn 52 munud.

Bu farw Dai y llynedd yn 92 mlwydd oed. Mater o falchder yw gwybod bod un o feibion yr ardal wedi bod ar flaen y gad yn natblygiad y cyfrifiadur modern, dyfais sydd erbyn hyn, drwy gyfrwng ein ffonau a'n gliniaduron, yn llenwi'n bywyd. Ysgwn i a oes gan ddarllenwyr y Tafod Elái unrhyw wybodaeth am Dai Edwards a'i deulu? Byddai'n braf cael clywed.

Dymunwn ddiolch i Wyn Jones am ei gymorth hael wrth baratoi'r stori hon.

Rowland Wynne

# Hawl i Holi

Mae'r gyfres radio Hawl i Holi yn ei hôl! Er nad oes cyfle i deithio i gymunedau Cymru ar hyn o bryd, mae'r rhaglen Hawl i Holi yn ei hôl. Dewi Llwyd sy'n cyflwyno, herio a chadw trefn ar 4 panelydd. Gan ddarlledu yn fisol ar Radio Cymru rydym yn awyddus iawn i glywed gan gyfranwyr o bob rhan o'r wlad. Os oes gennych chi gwestiwn neu bwnc yr ydych chi am i'n panelwyr ymateb iddo byddem wrth ein boddau'n clywed gennych.

Bydd y rhaglenni nesaf ar Fawrth 4ydd, Ebrill 1af ac Ebrill 29ain am 6 yr hwyr.

I gysylltu mae modd ffonio 03703 500700 yn ystod oriau gwaith neu e bostio hawliholi@bbc.co.uk

# LLANTRISANT PONTYCLUN MEISGYN

**Gohebydd y mis: Eluned Davies-Scott**

**Croesi'r A4119 yn ddiogel.**
Yn ystod mis Chwefror bu nifer o breswylwyr ardal Meisgyn yn lleisio eu pryderon am beryglon i gerddwyr wrth groesi'r A4119 ar bwys siop Arthur Llywelyn Jenkins. Mae'n ffordd ddeuol brysur iawn sydd wedi achosi damweiniau difrifol gan gynnwys marwolaeth tad a'i fab 7 mlwydd oed yn 2015.



Roedd cyfle i wneud hyn trwy ymateb i brosiect 'Teithio Llesol Rhondda Cynon Taf'. Pwrpas y prosiect, sy'n fenter genedlaethol yng Nghymru, yw edrych ar fannau sydd angen eu gwella mewn rhyw ffordd er mwyn galluogi pobl i gerdded neu feicio'n fwy diogel. Bydd yr holl adborth a derbynnir o'r ymgynghoriad yn cael ei ddadansoddi gan gyfrannu at Fap Rhwydwaith Teithio Llesol ar gyfer RhCT. Pob tair blynedd mae'n ofyniad cyfreithiol i bob awdurdod yng Nghymru i gyflwyno eu cynlluniau ar gyfer paratoi cyfleusterau ar gyfer dewis cerdded a beicio yn lle defnyddio'r car ar gyfer siwrneiau lleol byr. Unwaith mae'r cynlluniau rhwydwaith teithio llesol wedi eu paratoi gellir gwneud cais I Lywodraeth Cymru am arian i roi'r cynhigion ar waith.
Gobeithio bydd y sylwadau a wneir yn cael eu hystyried pan fydd yr awdurdod yn paratoi ei adroddiad ac y bydd yn arwain at ddarparu man croesi diogel.

**Cogyddion Macmillan yn paratoi ar gyfer Dydd Gŵyl Dewi**
Gyda chyfleoedd i godi arian yn parhau i fod yn gyfyngedig iawn gan y cloi presennol aeth dwy aelod o'r grŵp Macmillan lleol ati unwaith eto i ddefnyddio'u sgiliau coginio. Nid oedd prinder o archebion am ddanteithion Dydd Gŵyl Dewi gafwyd eu paratoi gan Yvonne Peters ac Eluned Davies-Scott. Bydd arian am y danteithion yn mynd i gronfa, Carys merch Yvonne Peters, sy'n gobeithio rhedeg marathon Llundain eleni ar ran elusen Macmillan. Rhaid diolch yn fawr iawn i bawb gefnogodd eu hymdrechion.







**Pen-blwydd hapus**
Bydd Dilwen Davies, Llantrisant yn dathlu pen-blwydd arbennig iawn ar 3ydd o Fawrth. Llongyfarchiadau mawr iddi.



Bethan, Nia a Dilwen

**Cynhesu i fyny at 2022**
Ar Fehefin 13eg 2021 bydd elusen 'To Wish upon a star' yn dathlu dychweliad eu digwyddiad beicio poblogaidd Wickets and Wheels. Digwyddiad sydd eisoes wedi gweld miloedd yn cymryd rhan i brofi eu terfynau personol wrth gefnogi'r elusen. Mae ' Cynhesu 40 milltir' yn galw ar i bob beiciwr frwsio'r llwch oddi ar eu beiciau a'u spandex er mwyn cymryd rhan. Bydd hyn yn gyfle i baratoi ar gyfer y digwyddiad arbennig yn 2022 i ddathlu pen-blwydd yr elusen yn 10 oed.

Fel y gwyddoch mai 2 Wish Upon A Star yn darparu cefnogaeth i deuluoedd, unigolion a gweithwyr proffesiynol ledled Cymru sydd wedi cael eu heffeithio gan farwolaeth sydyn a thrawmatig plentyn neu oedolyn ifanc 25 oed neu iau. Sefydlwyd yr elusen fel canlyniad i drasiedi gwraig ifanc o Feisgyn yn 2012 ac fe welwyd Rhian Mannings yn derbyn MBE ac yn ennill Gwobr Balchder Prydain 2020 am ei dewrder a'i rhagwelediad.

I gael mwy o wybodaeth am yr elusen hon, ac i gofrestru ar gyfer y digwyddiad Cynhesu Wicedi ac Olwynion ym mis Mehefin, ewch i'w gwefan www.2wishuponastar.org Gallwch hefyd gael y wybodaeth ddiweddaraf am waith yr elusen ar gyfryngau cymdeithasol.

## Pigiad gan Rob Evans

Yn ystod mis Ionawr mi wnaeth y syniad taro fi bod y gair 'pigiad' yn llawer gwell na'r gair Saesneg 'jab'. Mae 'jab' yn awgrymu gweithred sydyn a diofal tra bod 'pigiad' yn awgrymu rhywbeth mwy gofalus a thyner. Dydi o ddim yn help bod 'Jab' yn odli efo 'stab'.

Chi'n gweld roeddwn i wedi cael y llythyr i ddweud mod i'n mynd i gael y pigiad yn ystod yr wythnosau canlynol ac i ddisgwyl y llythyr a fydd yn cadarnhau'r apwyntiad.

Roedd fy meddwl i'n mynd yn ôl i fy nyddiau ysgol a'r diwrnod pan oedd y nyrs yn galw i roi injecshyn i ni. Dyna beth oedd o yn y dyddiau hynny, roedden ni'n cael injecshyn achos roedd hyn yn llawer cyn i rywun benderfynu bydd y gair 'pigiad' yn llawer gwell. Doedd dim sensitifrwydd am y peth, roedd holl blant y dosbarth yn sefyll mewn rhes ac yn gweld pob plentyn o'u blaenau yn gwingo mewn poen. Os oeddech chi ar ddiwedd y rhes roeddech chi wedi codi ofn yn ofnadwy erbyn eich tro chi.

Chi bobl ifanc! Does gennych chi ddim syniad o faint oedden ni'n gorfod dioddef!

Mae pethau'n llawer gwell erbyn hyn wrth gwrs ac roeddwn i'n edrych ymlaen at gael y peth drosodd. Am chwech o'r gloch ar ddiwrnod olaf mis Ionawr roeddwn i'n eistedd yn yr adeilad yma oedd wedi cael ei addasu ar gyfer marathonau o bigiadau. Chwarae teg i'r Gwasanaeth Iechyd roedd y ffordd o weithio yn reit slic. Roedden ni i gyd yn eistedd ar gadeiriau ar ddwy ochr yr ystafell hirsgwar a fi oedd y cyntaf yn y rhes. Dyma'r nyrs yn dod ataf fi efo'i throli, tynnu clipfwrdd allan ac yn cadarnhau fy enw a chyfeiriad ac ati ac wedyn yn gofyn cwestiynau am fy nghyflwr iechyd. Dw i'n falch o ddweud fy mod i wedi ymateb pob un yn gywir ac fel gwobr am hynny ces i'r pigiad. Wedyn mi nes i siomi fy hun, ia, mi nes i grio! Ond roeddwn i'n teimlo'n llawer gwell ar ôl i'r nyrs roi cwtsh i mi!

Hen dric dw i'n gwybod, ond mae'n gweithio pob tro!

# Curo'r Corona'n Coginio

**Eluned Davies-Scott**

## Planhigyn Wy?



Yn ôl 'Cysgeir' planhigyn wy yw'r enw Cymraeg am 'aubergine' ac wrth gwrs ei enw arall yn Saesneg yw 'eggplant'. Ydych chi'n gyfarwydd â choginio'r llysieuyn hwn neu ydych chi'n ei osgoi am nad ydych yn siŵr iawn sut i'w ddefnyddio?

Daeth yr enw aubergine yn wreiddiol o'r Arabeg *al-badinjan* trwy Gatalaneg *alberginia*, a fenthycwyd wedyn gan y Ffrancwyr fel *aubergine*. Yn yr Sansgrit Hynafol mae 33 enw iddo gan gynnwys 'Pwmpen Frenhinol, 'Ffrwyth Glas' ac 'Llysieuyn Rhagorol'.

Rydyn ni'n ei alw'n blanhigyn wy oherwydd bod y rhai gwreiddiol a ddaeth i Ogledd America yn edrych fel wyau gwyn. Disodlwyd y rhain gan y mathau porffor a gwyrdd mwy o faint sydd ar gael yn y siopau heddiw. Mae'n rhan o deulu Solanum sydd hefyd yn cynnwys tomatos a chodwarth (deadly nightshade) ac yn gallu amrywio o faint pys i faint balŵns. Gallan fod yn borffor, gwyrdd, binc, gwyn neu ifori mewn lliw. Pan allforiwyd y rhai cyntaf i Brydain o'r Dwyrain Canol yn yr unfed ganrif a'r bymtheg cawsant eu gwahardd a'u galw'n 'afalau gwallgof'. Hyd nes i'r enwog Elizabeth David ddechrau eu cefnogi'n frwd yn y 1950au ni fyddech yn debygol o'u gweld yr ochr hon i'r Sianel. Pe baech chi'n dod ar draws un, mae'n debygol y byddai wedi cael ei or-goginio mewn fersiwn Brydeinig wael o ratatouille a oedd yn ddigon i'ch rhwystro rhag eu bwyta byth eto. Erbyn hyn rydyn yn fwy anturus yn ein defnydd a'i goginio wrth i gogyddion fel Yottam Ottolenghi ei gyflwyno i ni fel rhan o fwydydd y dwyrain canol.

Os am roi cynnig ar ei ddefnyddio mae'n bartner ardderchog i gig oen a dyna pam mae'r Groegiaid yn ei ddefnyddio mewn *moussaka*. Yn India mae'n ffefryn mewn cyri cyfoethog mewn cnau coco *Baingan Chettinad* (brinjal neu baingan yw'r gair am y planhigyn wy). Yn yr Eidal mae'n cael ei weini gyda saws tomato mewn *melanzanne parmigiana*. Mae dylanwad y Moors ar fwydydd Sicili gyda'r planhigyn wy yn cael ei goginio gyda thomatos, seleri, caprau (capers) a syltana mewn *caponata*.

Un o'r hoff ddulliau o'i goginio yw ei rostio neu ei roi dros fflam agored ac yna defnyddio'r cnawd gyda sudd lemwn, persli a tahini i wneud *baba ganoush*. Gellir ei stwffio hefyd gyda chig oen sbeislyd i wneud *imam bayildi* sy'n tarddu o Dwrci.

Efallai bod rhai ohonoch wedi darllen ryseitiau sy'n gofyn am ei halltu i gael gwared â'r chwerwder cyn ei defnyddio - does dim angen hyn er bod gwneud hynny'n golygu nad ydyn nhw'n amsugno cymaint o olew wrth eu coginio.

Dyma un o fy hoff ryseitiau i, sydd wedi ei addasu o lyfr coginio gan Rick Stein:

4 planhigyn wy
6 llwy fwrdd olew olewydd
1 nionyn wedi ei dorri'n fân
4 ewin o arlleg wedi eu torri'n fân
1 pupur coch wedi ei dorri'n giwbiau
1½ llwy de o hadau ciwmin wedi eu malu
1 llwy de o sinamon
½ llwy de o nytmeg
1 llwy de pimentón dulce
Pinsiad da o chilis sych wedi eu malu
500g o friwgig cig oen
6 llwy fwrdd o pasatta
100g o gaws Y Ddafad Ddu (Caws Cenarth) neu Manchego wedi ei gratio
Halen a phupur

- Cynhesu'r ffwrn i 200C/Nwy 6
- Torri'r planhigyn wy ar eu hyd yna torri patrwm croes cris yn y cnawd gyda chyllell finiog gan osgoi torri'r croen.
- Yna ei rhoi mewn tun rhostio ochr wrth ochr, ei brwsio gydag olew, ychwanegu sesnin a'i goginio am 30-40 munud nes bod y cnawd yn feddal.
- Yn y cyfamser, cynhesu 2 lwy fwrdd o'r olew mewn padell fawr ac ychwanegu'r nionyn, garlleg, pupur coch a'r sbeisys a'i ffrio yn araf am 10 munud cyn ychwanegu'r cig oen. Parhau i'w coginio am 3-4 munud nes bod y cig yn frown golau.
- Ychwanegu'r pasatta a mudferwi'r cyfan am 5 munud.
- Pan mae'r planhigyn wy yn barod troi'r ffwrn I 220C/Nwy 7.
- Tynnu'r cnawd allan yn ofalus gan adael tua 1cm ohono yn y croen. Cymysgu'r cnawd gyda'r cig oen ac ychydig mwy o sesnin. Rhannu'r llenwad cydrhwng y planhigyn wy yna taenu'r caws ar yr wyneb.
- Coginio am 3-10 munud hyd nes mae'r caws yn euraidd.

Nawr mae'n bryd i ni fynd ati i blannu hadau planhigyn wy ar gyfer ei dyfu yn y 'stafell wydr. Gwnaethon arbrofi hyn y llynedd a chael llwyddiant arni felly mae'n amser i roi hadau i egino ar gyfer cnwd yr haf hwn.



# Ysgol Garth Olwg

**Hawl i Holi**

Roedd yn brofiad diddorol cael cymryd rhan yn y rhaglen radio 'Hawl i Holi' ym mis Chwefror. Gan fod cymaint o drafod am annibyniaeth i Gymru dewisais ofyn y cwestiwn, "A fydd Cymru yn rhan o Brydain ffederal ymhen 10 mlynedd?". Roedd gan y panelwyr nifer o safbwyntiau diddorol o blaid ac yn erbyn ffederaliaeth, annibyniaeth a chadw'r system bresennol ac roedd yn ddiddorol ystyried eu barn. Yn bersonol, mae hi'n bwysig ystyried pob math o opsiynau gwahanol er mwyn cynyddu ac annog trafodaeth ar y pwnc. Roeddwn i'n falch iawn i allu cymryd y cyfle i osod cwestiwn ar y rhaglen hon a chael clywed y panelwyr yn ystyried safbwyntiau pobl ifanc wrth i ni baratoi i gael pleidleisio yn etholiadau'r Senedd yn hwyrach yn y flwyddyn. Gan Catrin England, Blwyddyn 10.

**Cerddwn Ymlaen**

Llongyfarchiadau i ddisgyblion yr Ysgol Ganol am godi dros £200 i'r elusen Follow your Dreams trwy gerdded. Da iawn chi ddisgyblion.


# Eisteddfod Rithiol Ysgol Llanhari



Mae hybu Cymreictod a'r Gymraeg wrth wraidd ethos Ysgol Llanhari ac yn naturiol, rydym yn pryderu am effaith y cyfnod clo ar allu ein disgyblion, lle mae'r mwyafrif helaeth yn dod o gefndiroedd di-Gymraeg i ymarfer a siarad yr iaith y tu allan i'r ystafell ddosbarth. Gyda hyn mewn golwg, lansiwyd eisteddfod rithiol yn ystod yr wythnos olaf cyn hanner tymor, yr wythnos lle yn draddiodadol y cynhaliwn ein heisteddfod ysgol. Yn lle neuadd chwaraeon orlawn o hwyl a miri y cystadlu ar lwyfan, rhoddwyd cyfle i'r disgyblion i gwblhau tasgau gartref gan ddewis o'r arlwy eang ac amrywiol a gynigiwyd iddynt.


Addaswyd y cystadlaethau arferol a gwelwyd bod rhywbeth at ddant pawb ar draws ystod o bynciau'r cwricwlwm gan gynnwys cystadlaethau llenyddol, y Pentref Chwaraeon, Y Maes, Gwyddonle ac ardal Cymru a'r Byd. Rhoddwyd esboniad ar gyfer pob tasg mewn "Team" Microsoft newydd a grewyd yn arbennig ar gyfer yr achlysur ac fe gyflwynwyd y gwaith ar *assignments*. Braf yn arbennig oedd gweld fideos o ddoniau'r staff yn enghreifftio ambell gystadleuaeth gyffrous! Bu'r wythnos yn gyfle gwych i'r disgyblion i fod yn greadigol, i ymarfer eu Cymraeg y tu hwnt i wersi ac i gystadlu'n frwd dros eu llysoedd arferol, Aran, Trisant a Hari. Cynhyrchwyd fideo dyddiol gan yr Adran Gymraeg o uchafbwyntiau'r dydd ond bydd gwybodaeth am yr holl enillwyr yn cael ei ryddhau yn ystod yr wythnos sy'n cychwyn ar Fawrth y 1af ar ffurf fideos.

Uchafbwynt y cystadlu fydd y brif seremoni, sef Cadeirio prif lenorion CA3 a CA4/5 a bl5 a 6 yn yr adran gynradd ond er hyn rydym yr un mor awyddus i wybod pwy fu'n fuddugol yn yr holl gystadlaethau newydd – pwy yw'r dawnsiwr gorau? Pwy yw'r lipsynciwr gorau? Pwy enillodd yr her bêl droed? Pwy greodd yr hysbyseb gorau? Cawn weld.... Rydym yn hynod o ddiolchgar i'r athrawon a fu'n brysur yn trefnu a beirniadu ac i Dr Elen Ifan o Adran y Gymraeg, Prifysgol Cymru Caerdydd am feirniadu cystadlaethau'r Gadair.



















# Ysgol Pont-Siôn-Norton

**Croeso!**
Roedd staff yr Ysgol wrth eu boddau yn croesawu y Cyfnod Sylfaen yn ôl ar yr 22ain o Chwefror ac yn edrych ymlaen at gael yr Adran Iau yn ôl cyn y Pasg! Diolch i'r holl blant am eu gwaith caled ac i'r rhieni am eu cefnogi drwy'r cyfnod clo. Croeso mawr hefyd i'r criw cyn feithrin sydd newydd ddechrau gyda ni. Rwy'n gobeithio bod pawb wedi ymgartrefu erbyn hyn.

**Her 30 milltir**
Bu staff a phlant yn Ysgol yn brysur iawn yn ddiweddar yn cyflawni her 30 milltir mewn 30 diwrnod. Roedd nifer wedi cwblhau'r 30 milltir drwy seiclo, cerdded, rhedeg a sgwtio o amgylch yr ardal leol. Llongyfarchiadau i bawb! Diolch i Mrs Barry am drefnu'r her.

**Dydd Miwsig Cymru**
Er bod mwyafrif o blant yr Ysgol yn dysgu o bell, bu pawb adre ac yn yr hwb Ysgol yn dathlu dydd Miwsig Cymru. Cafwyd fideo o hoff ganeuon y staff, neges gan DJ Huw Stephens, disgo yr Urdd a gweithgareddau llawn hwyl! Diolch i Miss Rogers am drefnu.

**Dathlu**
Dathlwyd Dydd Gŵyl Dewi a Dydd y Llyfr o bell ac yn yr Ysgol drwy wisgo coch, dysgu'r hanes, crefft a darllen llawer!

**Urdd**
Diolch i Jordan o'r Urdd am drefnu cwis i blant blwyddyn 5 a 6 yr hwb. Roedd y plant wrth eu boddau ac yn siomedig pan oedd hi'n ddiwedd y cwis oherwydd roedd hi'n amser adre!



Dysgu o bell

Her





**Gwener Gwenu**
Roedd hi'n ddiwrnod hapus iawn yn yr Ysgol ar ddydd Gwener Gwenu- crewyd cardiau diolch, emojis newydd, adrodd jôcs a cafwyd llawer o chwerthin!!



Cwis yr Urdd



Her 30




Huw Stephens


## Cais i Bobl ifanc Cymru i fod yn rhan o Ymchwil Cyfryngau

**Mae Panel Cyfryngau Cymru ar hyn o bryd yn chwilio am bobl ifanc 16 – 24 oed, o bob rhan o Gymru i lenwi holiaduron am raglenni teledu a'r cyfryngau ehangach.**
**Mae'r holiaduron wythnosol yn hawdd a chyflym i'w llenwi a chewch ddewis cael eich gwobrwyo gyda thalebau siopa Amazon, neu gallwch ddewis roi eich gwobrau i elusen. Os ydych yn perthyn i grwp cymunedol (e.e. clwb chwaraeon lleol) anogwch eich aelodau i gymryd rhan hefyd a gyda'ch gilydd gallwch ennill hyd at £500 y flwyddyn i'ch grŵp/ clwb!**
**Mae'r holiaduron ar-lein.**
**Gweithredir yr ymchwil gan gwmni ymchwil TRP Research ar ran S4C.**
**Ymunwch ar-lein www.panelcyfryngau.cymru**
**neu cysylltwch â Bethan: 07947 129227.**

Panel Cyfryngau Cymru | Media Panel Wales

## Merched y Wawr gyda Angharad Tomos

Cyfarfod rhithiol gawsom eto - ond am gyfarfod difyr! Diolch i Jên a Joy Glyn cawsom awr ddifyr iawn yng nghwmni'r awdures Angharad Tomos. Do, fe fu ambell gremlin yn ceisio amharu - ond wedi i ni sylweddoli nad oedd yn ddoeth iawn cynnal dau gyfarfod zoom yr un pryd o'r un cartref - aeth pob dim yn hwylus. Sôn oedd Angharad am gefndir ei nofel ddiweddara 'Y Castell Siwgr'.


Fe'i sbardunwyd i ysgrifennu'r nofel wedi ymweliad ag Arddangosfa '12 Stori' a grewyd gan Manon Steffan Ros yng Nghastell Penrhyn, sy'n sôn am berthynas y lle â chaethwasiaeth. Bu'n amlinellu'r holl waith ymchwil wnaed ganddi i hanes teulu'r Penrhyn; i gaethwasiaeth yn gyffredinol; i ddioddefaint a cham-driniaeth merched dros y canrifoedd. Nofel anghyfforddus i'w sgwennu, anodd ei darllen oherwydd yr holl wirioneddau cignoeth. Byd tra gwahanol i fyd Rala Rwdins a Strempan!

Bu trafodaeth frwd, bu'n gyfarfod cynnes ac agos-atoch a braf oedd clywed Angharad yn dweud iddi wir fwynhau serch ei phryder cychwynnol - gan taw dyma'r gwmniaeth gartrefol, gynnes gynta iddi ei phrofi ers cychwyn y clo mawr! Diolch i Joy am drefnu, i Jên am y gwaith technegol holl bwysig ac i Angharad am ei pharodrwydd i ddod i 'siarad' â ni! Ewch ati i ddarllen 'Y Castell Siwgr'!

Gweler isod ran o Adolygiad diweddar Dr. Gareth Evans-Jones:

*Dilyn straeon dwy ferch yn eu harddegau a wnawn, sef Dorcas ac Eboni, ond adroddir hanesion y ddwy ar wahân. Yn rhan gyntaf y nofel, dilynir bywyd Dorcas, merch o Ddolgellau, sy'n cael ei gorfodi gan amgylchiadau cymdeithasol i fynd i weini yng Nghastell Penrhyn. O gyrraedd yno, profa Dorcas amryw heriau, yn cynnwys gweithio oriau diddiwedd, gorfod cyfathrebu drwy gyfrwng y Saesneg, a bodoli mewn cyflwr isel iawn, 'yn faw isa'r domen'.*

*Llwydda Angharad Tomos i ddelweddu hanes Dorcas mewn modd cwbl gredadwy a chelfydd, sy'n ennyn cydymdeimlad y darllenydd o'r dechrau hyd at y frawddeg olaf. Cryfder mawr arall yw'r modd y delweddir natur 'gaethiwus' bod yn gyflogedig gan y teulu Penrhyn. Yn wir, mae'r agwedd hon ar ran gyntaf y nofel yn hynod ingol, a dwyseir hynny drwy symud at ail ran y gwaith, sef stori Eboni, caethferch ar blanhigfa teulu'r Penrhyn yn Jamaica.*




*Mae stori Eboni yn un ddirdynnol a theimladwy iawn. Mae'r byd y mae'n perthyn iddo, y profiadau annymunol a gaiff, a'r tro trawiadol yn ei hanes yn sicrhau bod ei stori yn un sy'n cydio'n llwyr yn y darllenydd, sy'n ei ysgwyd yn ddidrugaredd, ac sy'n ei orfodi i wir gydnabod yr agwedd afiach ar hanes dynoliaeth nad yw'n cael ei thrafod mor eang ag y dylai: hanes caethwasiaeth.*

*O gofio am y gwir anffodus fod hiliaeth yn fyw ac yn iach yn 2020, ac o gofio ein bod ni'n byw yn oes ymgyrchoedd #BywydauDuoBwys (#BlackLivesMatter), mae Y Castell Siwgr yn nofel eithriadol amserol. Yn ddiau, credaf y bydd y nofel hon yn lladmerydd arbennig a chwbl deilwng i hyrwyddo addysg 'newydd' am hiliaeth, caethwasiaeth, a chysylltiad y ddeubeth â'r Cymry. Dylai'r nofel gael ei darllen yn ofalus ac yn fanwl, a'i rhannu ymysg cynulleidfa eang iawn.*

*Heb os, dyma nofel gignoeth o gredadwy, sy'n llwyddo i adrodd stori hanesyddol sydd mor amserol ag erioed.*



# Ysgol Dolau

**Dysgu o Bell**
Mae'r cyfnod clo diweddaraf wedi cyflwyno'i heriau i ni fel teulu yn Ysgol Gynradd Dolau ond fel dywed ein harwyddair, "Ymdrechwn yn gyson i wella'r ysgol...". Yn wir, mae staff a phlant yr ysgol wedi bod yn cydweithio i lywio'r cwch trwy'r stormydd a pharhau i ddatblygu a gwella ein systemau. Trwy'r dyfalbarhad a pharodrwydd pawb i ddysgu o'r newydd, rydyn ni oll wedi sicrhau bod dysgu a lles wedi parhau i fod yn flaenoriaeth i ni fel ysgol. Er mor fawr yw nifer ein disgyblion, rydym yn deulu a chymuned glos lle mae pawb yn edrych ar ôl ei gilydd. Hoffem fel staff ddiolch i bob un o'n disgyblion am weithio mor galed a bod mor barod i barhau ar eu llwybrau dysgu troellog yn ystod y cyfnod clo. Rydym yn hynod o falch o bob un o'n disgyblion yn Ysgol Gynradd Dolau ac yn hapus dros ben i fod yn agor y drysau unwaith eto er mwyn croesawu ein teulu nôl i'r aelwyd.

**Eisteddfod Rhithiol Dydd Gŵyl Dewi**
Mae Eisteddfod yr Ysgol yn ddyddiad pwysig dros ben yn ein calendr flynyddol a siomedig iawn oedd y syniad o beidio â gallu dathlu gyda'n gilydd eleni. A oedd y Coronafeirws am ein hatal? Nac oedd! Yn ystod mis Chwefror, bu disgyblion Cyfnod Allweddol 2 yn gweithio ar gystadleuthau rhithiol yn cynnwys llawysgrifen, celf, adrodd jôc Cymraeg, llefaru a llefaru i ddysgwyr. Diolch i'n disgyblion am fod yn rhan o'r dathliadau a da iawn i bob un ohonynt am safon y gwaith danfonwyd at yr athrawon. Fe fydd enillwyr pob cystadleuaeth yn derbyn taleb £10 i wario ar lyfrau darllen a'r cyntaf, ail a thrydydd ym mhob cystadleuaeth yn derbyn tystysgrif arbennig.


**Penblwydd Hapus!**
Mae gwasanaethau'r ysgol yn rhoi'r cyfle i ni gyd-ddathlu cerrig milltir o fewn yr ysgol. Yn anffodus, ni fyddwn yn medru dathlu carreg milltir un aelod o staff yr ysgol, sy'n croesawu degawd newydd eleni! Felly, dyma fachu ar y cyfle i ddanfon ein cyfarchion penblwydd at athrawes arbennig. Penblwydd hapus Miss. Ryan, oddi wrth holl staff a phlant Ysgol Gynradd Dolau.



Celf Leo



Celf Daisy



Hen Wlad Fy Nhadau

Mae hen wlad fy nhadau yn annwyl i mi,
Gwlad beirdd a chantorion, enwogion o fri,
Ei gwrol ryfelwyr, gwladgarwyr tra mâd,
Tros ryddid gollasant eu gwaed.

Gwlad, Gwlad, pleidiol wyf i'm gwlad,
Tra môr y fur i'r bur hoff bau,
O bydded i'r heniaith barhau.

Hen Gymru fynyddig, paradwys y bardd;
Pob dyffryn, pob clogwyn, i'm golwg sydd hardd
Trwy deimlad gwladgarol, mor swynol yw si
Ei nentydd, afonydd, i fi.

Os treisiodd y gelyn fy ngwlad dan ei droed,
Mae hen iaith y Cymry mor fyw ag erioed,
Ni luddiwyd yr awen gan erchyll law brad
Na thelyn berseiniol fy ngwlad

Llawysgrifen Ruby

